| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **19 Rhagfyr 2016** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Llangefni** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Ken Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Emrys Bebb** |
| **Aelodau Lleol:** | **Y Cynghorydd Bob Parry**<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones**<br>**Y Cynghorydd Victor Hughes** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin, 2016, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- Awdurdodi'r swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w galluogi i gynnal proses ymgynghori anffurfiol neu anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 3 Hydref, 2016 tan 13 Tachwedd, 2016.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid yr ysgolion yn ystod y cyfnod hwn: -

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2016)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Y Graig** | **Dydd Llun** | **10 Hydref** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |
| **Talwrn** | **Dydd Mawrth** | **11 Hydref** | **3.45** | **5.00** | **6.15** |
| **Bodffordd** | **Dydd Iau** | **13 Hydref** | **3.45** | **6.30** | **5.30** |
| **Corn Hir** | **Dydd Llun** | **17 Hydref** | **3.45** | **5.15** | **6.30** |
| **Esceifiog** | **Dydd Mawrth** | **18 Hydref** | **3.45** | **5.15** | **6.30** |
| **Henblas** | **Dydd Iau** | **20 Hydref** | **3.30** | **5.00** | **6.15** |

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o opsiynau posib o'r ffordd ymlaen ar gyfer darparu addysg gynradd yn yr ardal Llangefni. Crynhoir y rhain yn y tabl isod: -

1. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn a'r Graig i ysgol newydd i 960 o blant + meithrin.
2. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn i ysgol newydd i 600 o blant + meithrin.
3. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir i ysgol newydd i 330 o blant + meithrin.
4. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas, ysgol newydd i 450 o blant + meithrin.
5. Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni i 150 o blant + meithrin.
6. Adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant + meithrin.
7. Ymestyn Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn blant + meithrin.
8. Addasu Ysgol Esceifiog
9. Addasu Ysgol Henblas

Dadansoddwyd yr opsiynau hyn ac fe'u sgoriwyd yn yr adroddiad. Mae dau bosibiliad yn codi o'r dadansoddiad manwl a gynhaliwyd: -

**Opsiwn A**
Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 8, sef *addasu Ysgol Esceifiog*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a cau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**
Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 6b, sef *adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a cau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar y safle presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

| |
|---|
| **Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith:**<br>Yn awdurdodi'r swyddogion i symud ymlaen i'r broses ymgynghori ffurfiol neu statudol pan fyddant yn ymgynghori ar Opsiynau A a B uchod. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Gweler nifer o opsiynau yn yr adroddiad. Ynddo, mae 9 opsiwn penodol yn cael eu sgorio ac mae hyn yn sail i'r argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014. Yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin 2016, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i ddod a chynlluniau posib Llangefni ymlaen i Band A a cymeradwywyd y cynlluniau hyn fel rhan o'r Gyllideb yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwad |
| 5 | **Adnoddau Dynol (AD)** | "Dylid ymdrin ag unrhyw faterion staffio sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac adnoddau dynol eraill cydnabyddedig." |
| 6 | **Eiddo (Cynllunio)** | Dim sylwad |
| 7 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dim sylwad |
| 8 | **Sgriwtini** | Nid yw'r adroddiad wedi bod at y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Dim sylwad |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Llais Ni – gweler rhan 11 o'r adroddiad |

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Ddim yn berthnasol |
| 2 | **Gwrthdlodi** | Ddim yn berthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | Ddim yn berthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Arall** | Ddim yn berthnasol |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Atodiadau 1 – 9. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 20 Mehefin, 2016.<br>2. Dogfen Ymgynghori Anstatudol<br>3. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.<br>4. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014. |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD ANSTATUDOL - ARDAL LLANGEFNI
# *REPORT ON THE NON-STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI AREA*

## Hydref 3 –Tachwedd 13, 2016 / *October 3 – November 13, 2016*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| **Rhif** | **CYNNWYS** | **TUDALEN** |
|---|---|---|
| **1.** | **RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR** | **3** |
| **2.** | **GYRWYR NEWID** | **3** |
| **3.** | **Y BROSES YMGYNGHORI** | **5** |
| **4.** | **SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI** | **6** |
| **5.** | **YMATEBION O YSGOL BODFFORDD** | **12** |
| **6.** | **YMATEBION O YSGOL CORN HIR** | **13** |
| **7.** | **YMATEBION O YSGOL ESCEIFIOG** | **14** |
| **8.** | **YMATEBION O YSGOL HENBLAS** | **15** |
| **9.** | **YMATEBION O YSGOL TALWRN** | **15** |
| **10.** | **YMATEBION O YSGOL Y GRAIG** | **17** |
| **11.** | **YMATEBION ERAILL** | **17** |
| **12.** | **DADANSODDIAD OPSIYNAU** | **20** |
| **13.** | **DATBLYGIADAU TAI YN ARDAL ALLANGEFNI** | **49** |
| **14.** | **YSTYRIAETHAU ARIANNOL** | **53** |
| **15.** | **ARGYMHELLIAD** | **58** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r addysg orau bosibl i'r holl blant a phobl ifanc ar yr ynys.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu braf sy'n cymell plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol ac i ddatblygu sgiliau bywyd, yn flaenoriaeth uchel.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc gan dorri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel
- gwella ymhellach ar safonau arweinyddiaeth ac ansawdd y dysgu a'r addysgu,
- darparu ysgolion a safonau sector arweiniol ymhob cymuned.

I gyflawni'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon bydd angen uno ysgolion drwy gyfuniad o ffedereiddio ysgolion, ad-drefnu dalgylch helaeth drwy ailfodelu adeiladau ysgol sydd yno'n barod neu godi ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i'r pwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

*Codi safonau addysgol*
Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*
Yn Ionawr 2016, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 13.9%. Er hynny, mae 0.7% o lefydd gweigion yn y 6 ysgol dan sylw, sydd dipyn llai na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*
Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,900 i £13,429 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2016-17 [£4,721 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*
Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*
Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth dirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*
Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd bron i 50% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*
Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod

yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y chwe ysgol yn yr ardal, cynghorwyr lleol a gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o Hydref 3[ydd] tan Tachwedd 13[eg] 2016.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion dros y cyfnod hwn:-

| | | | Cyfarfod â/ag | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2016)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Y Graig** | **Dydd Llun** | **10 Hydref** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |
| **Talwrn** | **Dydd Mawrth** | **11 Hydref** | **3.45** | **5.00** | **6.15** |
| **Bodffordd** | **Dydd Iau** | **13 Hydref** | **3.45** | **6.30** | **5.30** |
| **Corn Hir** | **Dydd Llun** | **17 Hydref** | **3.45** | **5.15** | **6.30** |
| **Esceifiog** | **Dydd Mawrth** | **18 Hydref** | **3.45** | **5.15** | **6.30** |
| **Henblas** | **Dydd Iau** | **20 Hydref** | **3.30** | **5.00** | **6.15** |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- newid y sefyllfa o ran amser di gyswllt i athrawon ohono'i hun.

- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw na
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanego yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Crynhoir sylwadau o bob un o'r cyfarfodydd isod.

**Ysgol Y Graig**

i. Roedd ambell i un am i'r Awdurdod adael Y Graig ond uno'r lleill.
ii. Ysgol gynradd newydd yn Llangefni o ystyried cynlluniau am dai sydd ar y gweill.
iii. Ystafell gerdd ac ystafell adnoddau yn ddosbarthiadau bellach. Mae angen addasu ystafell athrawon, toiledau ac o bosib ffeirio rhan y Cyfnod Sylfaen efo'r Meithrin.

**Ysgol Talwrn**

iv. Un ysgol gynradd yn lle'r 6? Cael y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Talwrn i'r 6 ysgol.
v. Roedd rhai'n meddwl fod "tir i adeiladu wrth neuadd y pentref" a bod angen 'breakdown' o gostau caban (£250k)
vi. Gofynnwyd pam nad yw Ysgol Llanbedrgoch yn rhan o hyn?

**Ysgol Bodffordd**

vii. Ysgol 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Llangefni

**Ysgol Corn Hir**

viii. Ffedereiddio gydag Ysgol Henblas yn ychwanegol i opsiwn 6.2.9.
ix. Dim lle yn y dosbarthiadau" a "dim lle yn yr ystafell athrawon, a bod athrawon yn gorfod cyfarfod yn y neuadd." "Be am fwy o le i'r Cylch Meithrin?"
x. "Beth fyddai'n digwydd os byddai opsiwn 6.2.9 yn dod i fodolaeth?"
xi. "O ystyried opsiwn 6.2.9, beth am ychwanegu ysgol(ion) eraill?"
xii. "Os caeir Ysgol Talwrn, a ddylid danfon y plant i Bentraeth?"

**Ysgol Esceifiog**

xiii. “Dim mannau tawel, dim ystafell gerdd, 35% yn AAA, 8% at ddatganiad.” Awgrymwyd cael uned arbenigol AAA neu autism ar y safle.
xiv. “Mae’r dosbarthiadau yn debyg i Corn Hir. Beth am eu gwneud nhw’n fwy?”
xv. Estyniad a datblygu rhannau eraill o’r ysgol neu “one stop shop”.
xvi. Ysgol gynradd newydd

**Ysgol Henblas**

xvii. Os cyfunir Corn Hir a Bodffordd, be am ffedereiddio hon efo Esceifiog.
xviii. Ymestyn i’r gogledd.
xix. Awgrymwyd cael gofalwr i edrych ar ôl tua 6 o adeiladau ysgol a chael rheolwr busnes neu gyfrifydd i wneud pethau ariannol a gweinyddol?
xx. Os cyfunir Corn Hir a Bodffordd, be am ffedereiddio hon efo hi?

Gweler Atodiad 1 am ddiffiniad Cyngor Sir Ynys Môn o Ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain.

O’r syniadau a gyflwynwyd uchod a’r syniadau amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori anstatudol, yr opsiynau mwyaf tebygol yw’r rhai a ganlyn. Noder rhai syniadau mwy nac unwaith gan eu bod wedi eu cyflwyno mewn o leiaf dau gyfarfod ymgynghori.

| Rhif | Syniad | Sylwadau | Ystyriaeth bellach? |
|---|---|---|---|
| i | Roedd ambell i un am i’r Awdurdod adael **Y Graig** ond uno’r lleill. | Byddai hon yn ysgol i tua 600 o blant | **Bydd – gweler isod** |
| ii | Ysgol gynradd newydd yn **Llangefni** o ystyried cynlluniau am dai sydd ar y gweill. | Isafswm maint yr ysgol hon fyddai 150 | **Bydd – gweler isod** |
| iii | Addasu tu fewn i **Ysgol y Graig** | Os ymestynnir yr ysgol, byddai angen ystyried hyn. | **Bydd – gweler isod** |
| iv a | Un ysgol gynradd yn lle’r 6? | Byddai hon yn ysgol i tua 960 o blant | **Bydd – gweler isod** |
| iv b | Cael y Cyfnod Sylfaen yn **Ysgol Talwrn** i’r 6 ysgol. | Capasiti Ysgol Talwrn yw 49. Byddai angen adeilad i tua 410 o blant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn unig ar gyfer disgyblion yr ardal. | **Na** |
| v | Roedd rhai’n meddwl fod “tir i adeiladu wrth neuadd y pentref **Talwrn**” a bod angen ‘breakdown’ o gostau caban (£250k) | Isafswm maint yr ysgol hon fyddai 150 sef maint Ysgol Rhyd y Llan ac mae angen 5 acer i gyd ar gyfer yr ysgol. Yn ôl swyddogion Eiddo’r Cyngor, nid oes 5 acer ar gael yn y pentref. *Y dosbarth symudol yn £100,000 yn ogystal â gwerth tua £150,000 o waith cludo a chysylltu.* | **Na** |
| vi | Gofynnwyd pam nad yw **Ysgol Llanbedrgoch** yn rhan o hyn? | Rhwng y 2 ysgol, byddai 70-80 o ddisgyblion yn yr ysgol sydd yn rhy fach i ddenu cyllid. Ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael efo llefydd gweigion na chyflwr yr adeiladau. | **Na** |
| vii | **Ysgol 3-18** ar safle Ysgol Gyfun Llangefni | Mae’r opsiwn hwn yn ddibynnol ar gael digonedd o le yn adeilad Ysgol Gyfun Llangefni ac ar y safle. | **Bydd – gweler isod** |
| viii | Ffedereiddio’r **ysgol newydd** posib gydag Ysgol Henblas yn ychwanegol i opsiwn 6.2.9. | Byddai hon yn ysgol i tua 450 o ddisgyblion ar 2 safle | **Bydd – gweler isod** |
| ix | Dim lle yn y dosbarthiadau” yn **Ysgol y Graig** a “dim lle yn yr ystafell athrawon, a bod athrawon yn gorfod cyfarfod yn y neuadd.” “Be am fwy o le i’r Cylch Meithrin?” | Pe bai Ysgol y Graig yn cael ei haddasu, efallai byddai hyn yn rhan o’r gwaith. | **Bydd – gweler isod** |
| x | “Beth fyddai’n digwydd os byddai **opsiwn 6.2.9** yn dod i fodolaeth?” | Opsiwn 6.2.9 yn y ddogfen ymgynghori anstatudol oedd: “Cau a throsglwyddo’r disgyblion a disgyblion o Ysgol Corn Hir i ysgol gynradd newydd.” | **Bydd – gweler isod** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| xi | "O ystyried **opsiwn 6.2.9,** beth am ychwanegu ysgol(ion) eraill?" | Opsiwn 6.2.9 yn y ddogfen ymgynghori anstatudol oedd: "Cau a throsglwyddo'r disgyblion a disgyblion o Ysgol Corn Hir i ysgol gynradd newydd." | **Bydd – gweler isod** |
| xii | "Os caeir Ysgol Talwrn, a ddylid danfon y plant i Bentraeth?" | Nid oes lle yn Ysgol Pentraeth i ddisgyblion Ysgol Talwrn petai Ysgol Talwrn yn cau | **Na** |
| xiii | "Dim mannau tawel yn **Ysgol Esceifiog**, dim ystafell gerdd, 35% yn AAA, 8% at ddatganiad." Awgrymwyd cael uned arbenigol AAA neu autism ar y safle. | Pe bai Ysgol Esceifiog yn cael ei haddasu, efallai byddai angen ystyried hyn. | **Bydd – gweler isod** |
| xiv | "Mae'r dosbarthiadau yn **Ysgol Esceifiog** yn debyg i Corn Hir. Beth am eu gwneud nhw'n fwy?" | Pe bai Ysgol Esceifiog yn cael ei haddasu, efallai byddai angen ystyried hyn. | **Bydd – gweler isod** |
| xv | Ymestyn **Ysgol Esceifiog** a datblygu rhannau eraill o'r ysgol neu "one stop shop". | Pe bai Ysgol Esceifiog yn cael ei haddasu, efallai byddai angen ystyried hyn. | **Bydd – gweler isod** |
| xvi | **Ysgol gynradd newydd** | Byddai hon yn ysgol i tua 960 o blant | **Bydd – gweler isod** |
| xvii | Os cyfunir **Corn Hir a Bodffordd,** be am ffedereiddio hon efo **Esceifiog**. | Byddai hon yn ysgol i tua 450 o blant ar 2 safle | **Bydd – gweler isod** |
| xviii | Ymestyn **Ysgol Henblas** i'r gogledd | Petai hyn yn digwydd, byddai'n cynyddu'r capasiti o tua 30. | **Bydd – gweler isod** |
| xix | Awgrymwyd cael gofalwr i edrych ar ôl tua 6 o adeiladau ysgol a chael rheolwr busnes neu gyfrifydd i wneud pethau ariannol a gweinyddol? | Mae hyn eisoes ar waith gan fod swyddogion SIMS yr Adran Dysgu Gydol Oes yn cael eu cyllido gan ysgolion i wneud rhywfaint o waith gweinyddol. | **Bydd ond nid yn yr adroddiad hwn** |
| xx | Os cyfunir **Ysgol Corn Hir a Bodffordd,** be am ffedereiddio **Ysgol Henblas** efo hi? | Byddai hon yn ysgol i tua 450 o blant ar 2 safle | **Bydd – gweler isod** |

Ystyrir pwynt vii uchod sef cael **ysgol 3-18** ar safle Ysgol Gyfun Llangefni - cynhwysedd Ysgol Corn Hir yw 204 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | **Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Corn Hir | 221 | 226 | 232 | 233 | 240 | 245 | 245 |

Cynhwysedd Ysgol Gyfun Llangefni yw 896 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y Tabl isod:

| | | **Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | **2027** |
| Gyfun Llangefni | 722 | 747 | 713 | 710 | 741 | 755 | 780 | 803 | 859 | 888 | 908 | 921 |

Gwelir fod niferoedd disgyblion yn Ysgol Gyfun Llangefni yn cynyddu cymaint fel y bydd yn mynd dros ei chapasiti erbyn Medi 2026. Nid yw hyn yn ystyried effaith unrhyw ddatblygiadau tai yn y dalgylch.

Er mwyn ystyried yr opsiwn hwn, mae angen cyfrifo’r arwynebedd ar gyfer llefydd chwarae sydd eu hangen ar ddisgyblion ysgol gynradd a’r hyn sydd ei angen fyddai tua 8500m$^2$ neu tua 2.1 acer heb sôn am faes parcio a storfeydd biniau ac ati. Nid oes tir o’r arwynebedd hwn ar gael o gwmpas Ysgol Gyfun Llangefni. Felly ni fyddai lle i ddisgyblion Ysgol Corn Hir ar safle Ysgol Gyfun Llangefni.

Ystyrir pwyntiau i, ii, iv a, viii, x, xi, xvi, xvii ac xx ymhellach yn yr adroddiad hwn ac ystyrir pwynt vii isod.

Pwynt i yw adeiladu ysgol i 600 yn lle pum ysgol gynradd a gadael Ysgol y Graig fel mae hi ac mae pwynt ii yn ymwneud ag adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni.

Mae opsiynau iii ac ix yn ymwneud ag addasu Ysgol y Graig ac mae opsiynau xiii, xiv ac xv yn ymwneud ag addasu Ysgol Esceifiog.

Mae pwyntiau viii, x, xi, xvii ac xx yn amrywiadau ar opsiwn 6.2.9 yn y ddogfen ymgynghori anstatudol sef: “Cau a throsglwyddo’r disgyblion a disgyblion o Ysgol Corn Hir i ysgol gynradd newydd.”

Mae pwyntiau iv a a xvi yn ymwneud a’r syniad o adeiladu un ysgol yn lle 6.

Mae pwynt xviii yn ymwneud ag ymestyn neu addasuYsgol Henblas.

I grynhoi felly, mae 9 opsiwn ar ôl sef:

1. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn a’r Graig i ysgol newydd i 960 o blant + meithrin.
2. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn i ysgol newydd i 600 o blant + meithrin.
3. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir i ysgol newydd i 330 o blant + meithrin.
4. Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, a Henblas, ysgol newydd i 450 o blant + meithrin.
5. Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni i 150 o blant + meithrin.
6. Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Gaerwen i 150 o blant + meithrin.
7. Ymestyn Ysgol y Graig i gymryd plant Ysgol Talwrn blant + meithrin.
8. Addasu Ysgol Esceifiog
9. Addasu Ysgol Henblas

Cyfartaledd cost y pen ar draws y 6 ysgol yw £3,743.

## 5. YMATEBION O YSGOL BODFFORDD

5.1 Derbyniwyd 196 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol.

5.2 Yn ogystal, derbyniwyd 20 o ymatebion gan ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 a 27 o ymatebion gan ddisgyblion Blwyddyn 3-6 Ysgol Bodffordd.

5.3 Dywedodd y llywodraethwyr "byddai gweithredu opsiwn i gau Ysgol Gymuned Bodffordd yn gwbl anaddas ac yn anghyfiawn" ac roeddent o blaid ymestyn yr ysgol. Gweler sylwadau'r llywodraethwyr yn Atodiad 2.

5.4 Barn staff yr ysgol oedd y dylid "rhoi sylw i ddiwallu anghenion tref Llangefni yn unig" a "bod dal angen ysgol loeren".Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 3.

5.5 Gofynnwyd am farn ymatebwyr ar yr opsiynau a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori anstatudol. Roedd rhai ymatebwyr o blaid mwy mag un opsiwn:

| **Opsiwn Rhif.** | **Opsiwn** | **%** |
|---|---|---|
| 6.1.1 | Gadael pethau fel y maent | 54 |
| 6.1.2 | Ffedereiddio gydag ysgol(ion) arall/eraill | 1 |
| 6.1.3 | Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol | 14 |
| 6.1.4 | Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol | 13 |
| 6.1.5 | Cau a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Corn Hir fwy | 1 |
| 6.1.6 | Cau a throsglwyddo'r disgyblion a disgyblion o Ysgol Corn Hir i ysgol gynradd newydd | 0 |
| 6.1.7 | Adeiladu estyniad | 86 |

Gweler fod y mwyafrif o blaid adeiladu estyniad ar Ysgol Bodffordd.

5.6 Er nad oes penderfyniad wedi ei wneud, roedd 26% o'r ymatebwyr yn teimlo fod y gymuned, y neuadd gymunedol a'r digwyddiadau yno e.e. Eisteddfodau yn holl bwysig a byddai cau Ysgol Bodffordd yn cael effaith andwyol ar ddyfodol yr Eisteddfod leol.

5.7 Roedd y Cylch Meithrin yn cael canmoliaeth gan 16% o'r ymatebwyr o ystyried deilliannau da ddaeth o arolygiad Estyn o'r Cylch yn ddiweddar. Canmolwyd staff yr ysgol a'r Pennaeth yn ogystal. Mae staff hefyd yn pryderu am eu swyddi.

5.8 Roedd rhai (16%) yn teimlo fod ysgol fechan yn well i blant, a bod Ysgol Bodffordd yn gartrefol, hapus ac yn galon i'r gymuned.

5.9 Yn ogystal ag eisiau i'r ysgol aros yn agored a chael ei hymestyn, dywedodd 37 o'r ymatebwyr fod angen i beidio a "chau ysgolion gwledig" a bod angen "Ysgol Bodffordd fel dewis" a bod "tai ychwanegol yn yr ardal" yn golygu byddai mwy o blant yn mynd i Ysgol Bodffordd.

5.10 Teimlai 12% o'r ymatebwyr fod Ysgol Bodffordd yn holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg.

5.11 Cludiant i ysgol newydd posib oedd yn poeni 11% o ymatebwyr. Roedd eraill yn dweud nad oedd gan nifer o deuluoedd gar i gludo plant i ysgol newydd posib ac nad oedd palmant ar y lôn o Fodffordd i Langefni. Dywedwyd yn ogystal fod y rhan fwyaf o blant yn gallu cerdded i Ysgol Bodffordd.

5.12 Crybwyllodd rhai ymatebwyr (6%) "yr effaith andwyol" gall symud plant o un ysgol i'r llall ei gael arnynt. Roedd 3% yn poeni am effaith cau'r ysgol o bosib ar anghenion dysgu ychwanegol ac na ddylid gwahanu brodyr a chwiorydd wrth gau ysgol.

5.13 Roedd 5% o'r ymatebwyr yn dweud fod yr ysgol "wedi gwella ers yr arolwg gan Estyn yn 2015" ac mai "problem Llangefni" ydoedd.

5.14 Soniodd 4% o ymatebwyr am gau Ysgol Llandrygarn ac Ysgol Capel Coch a bod ehangu'r dalgylch o ganlyniad i hyn am gynyddu hyd y daith i ysgol newydd posib i ddisgyblion o'r ardaloedd hyn.

5.15 Roedd 4% o ymatebwyr am weld ysgol newydd yn dod i bentref Bodffordd tra roedd 2% yn meddwl bod ffedereiddio Ysgol Bodffordd efo ysgol gynradd arall yn opsiwn.

5.16 Teimlad 6% o ymatebwyr oedd bod y Cyngor wedi penderfynu ar ddyfodol Ysgol Bodffordd yn barod ac roedd un ymatebydd o'r farn mai 'tick-box exercise' oedd yr ymgynghori". Datganodd 3% o ymatebwyr dylai'r Cyngor wrando ar y rhieni ac yn eu tyb hwy, fod y Cyngor yn amddifadu'r rhieni o'u hawl i anfon eu plentyn neu blant i'w ysgol ddewisol hwy.

5.17 Crybwyllodd un ymatebydd bapurau academaidd, meddan' nhw oedd yn amlygu manteisio ysgolion bach.

5.18 Pwyntiau eraill nodwyd gan 1% o'r ymatebwyr oedd:

- Byddai'n anodd dysgu yn yr ysgol newydd gyda "dosbarthiadau o 30+"
- Effaith posib cau'r ysgol ar y pentref gan fod "y siopau wedi cau".
- Angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir.
- Dylai'r Cyngor fod wedi cynllunio yn well o ran Ysgol y Graig.

## 6. YMATEBION O YSGOL CORN HIR

6.1 Derbyniwyd 7 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol.

6.2 Roedd 5 o'r rhai wnaeth ymateb yn datgan eu cefnogaeth am opsiwn 6.2.9 sef "Adeiladu ysgol newydd a throsglwyddo'r disgyblion o Ysgol Bodffordd a Corn Hir i ysgol gynradd newydd". Roedd y 4 yn dweud fod angen mwy o le ar yr ysgol ar gyfer nifer cynyddol o blant.

6.3 Roedd un ymatebydd o dan y camargraff fod Ysgol Corn Hir am gau tra roedd ymatebydd arall wedi darllen rhai papurau newydd lleol oedd yn sôn am un ysgol gynradd yn lle 6.

6.4 Yn ogystal, derbyniwyd ymateb ar y cyd gan staff a llywodraethwyr yr ysgol. Eu barn oedd "nad oedd dim un opsiwn arall heblaw 6.2.9 yn bosib". Roeddent yn bleidiol i gynnwys "Ysgol Henblas yn yr ysgol newydd a newid ffiniau'r dalgylchoedd fel bod yr ysgol newydd yn lleihau'r gwasgedd ar Ysgol Y Graig."

6.5 Gweler sylwadau'r staff a'r llywodraethwyr yn Atodiad 4.

## 7. YMATEBION O YSGOL ESCEIFIOG

7.1 Derbyniwyd cyfanswm o 5 o ymatebion gan randdeiliaid sef 4 gan rieni tra roedd y llall yn ddienw. Roedd pedwar yn datgan eu cefnogaeth i opsiwn 6.3.5 sef "adeiladu estyniad" ar yr ysgol.

7.2 Roedd y 4 ohonynt yn cytuno gyda'r rheswm am yr ymgynghori a bod angen newid ac roeddent o blaid "amgylchedd ddysgu gwell i'n plant" a " mwy o le yn yr ysgol i ddysgwyr". Nid oedd barn glir gan y 4 rhanddeiliad yma am opsiynau sy'n ymwneud ag ysgolion eraill. Syniad yr ymatebydd arall oedd o symud y Cylch a'r clwb cyn ac ar ôl ysgol i ddosbarth symudol i ryddhau gofod neu i'r clwb cyn ac ar ôl ysgol symud i ganolfan y pentref.

7.3 Yn ogystal, derbyniwyd ymateb ar y cyd gan staff a llywodraethwyr yr ysgol.

7.4 Hoff opsiwn y staff a'r llywodraethwyr yw: "Adeiladu ysgol newydd ar safle sydd eisoes yn berchen i'r cyngor e.e. Cae pêl-droed neu ardal Parc gwyddoniaeth fydd yn gallu cynnig yr holl fuddiannau sydd wedi'i nodi ond heb unrhyw amharet ar rediad yr ysgol nac ar ddiogelwch plant, staff a rhieni. Byddai adeilad wedi'i gynllunio o'r newydd yn caniatáu i'r holl agweddau sydd angen sylw ei gwireddu yn ddi rwystr ac wedi'i gynllunio yn benodol i bwrpas. Byddai adeilad newydd ar safle arall yn caniatáu'r cyngor werthu safle'r ysgol i ddatblygwyr neu ei ddefnyddio fel adnodd ychwanegol i'r AALl e.e. ysgol arbennig benodol sy'n rhan o'r ysgol. Nid oes ateb syml ar gyfer adeiladu estyniad a chynnal yr ysgol yr un amser ac o ganlyniad byddai adeilad newydd yn llai o drafferth yn y pendraw."

7.5 Gweler sylwadau'r staff a'r llywodraethwyr yn Atodiad 5.

7.6 Mae sôn wedi bod ers 2007 am adeiladu tua 220 o dai ar safle 'Webster' yn Gaerwen. Nid oes unrhyw ohebiaeth wedi bod ar y datblygiad posib hwn gyda pherchennog y tir ers Chwefror 2014 ac mae swyddogion cynllunio'r Awdurdod yn meddwl bydd hi'n annhebygol bydd y datblygiad yn mynd yn ei flaen. Felly, tan fydd y sefyllfa parthed y datblygiad posib o 220 tŷ'n newid, ni ellir ei ystyried fel rheswm posib i ehangu Ysgol Esceifiog.

## 8. YMATEBION O YSGOL HENBLAS

8.1 Derbyniwyd 1 ymateb gan riant disgybl yn yr ysgol oedd yn bleidiol i "adeiladu estyniad gan gymryd y cyfle i ymuno'r ysgol feithrin bresennol a'i gael yn rhan o'r ysgol". Teimlai'r rhiant drwy "gael gwared â'r caban ysgol feithrin bresennol byddai lle i adeiladu estyniad sylweddol gan ganiatáu i'r ysgol ac ysgol feithrin elwa o'r adnoddau newydd a chreu cyswllt mwy clos rhwng y cylch a'r ysgol". Yn ogystal roedd o'r farn "y dylid ffederaleiddio'r ysgol a rhannu prifathro sy'n gyfrifol am yr ochr weinyddol gan ei fod yn amhosib i brifathro orfod dysgu ac ymgymryd â'r holl waith gweinyddol sy'n ofynnol mewn ysgol".

8.2 Yn ei ymateb, dywedodd y Pennaeth y byddai'n hoffi "sicrhau bod [ei] ddisgyblion yn Llangristiolus yn cael yr un chwarae teg a chyfleoedd â phlant Llangefni". Ei brif bryder "ydi y bydd yna ysgol fawr, newydd yn agos i Langristiolus, fydd efallai yn denu disgyblion o ysgolion cyfagos, fel Henblas". Roedd yn awyddus i gael "cadarnhad y bydd addasiadau yn cael eu gwneud i adeilad Henblas ac ysgolion eraill y dalgylch fel bod holl ysgolion y dalgylch yn medru cystadlu gyda'r ysgol newydd a bod pob disgybl yn y dalgylch yn cael cynnig addysg mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain".

8.3 Barn y Llywodraethwyr oedd "y dylai addysg barhau i'w gael ei ddarparu yn Ysgol Henblas." Roedd y Corff o'r farn "y dylai mwy cael ei wario ar gynnal a chadw'r ysgol, gan nodi (ac eithrio'r ysgol newydd yn yr ardal) mai Ysgol Henblas sydd a'r ffigwr isaf o ran gwaith atgyweirio."

8.4 Gweler sylwadau'r llywodraethwyr yn Atodiad 6.

## 9. YMATEBION O YSGOL TALWRN

9.1 Derbyniwyd 53 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol.

9.2 Yn ei lythyr, dywedodd Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Talwrn fod y Corff yn "gwrthwynebu unrhyw argymhelliad i gau'r Ysgol yng nghyd-destun ymgynghoriad Dalgylch Llangefni". Gweler sylwadau'r llywodraethwyr yn Atodiad 7.

9.3 Roedd y staff o'r farn fod Ysgol Talwrn yn "ysgol fechan deuluol a byddai'r ymdeimlad o agosatrwydd yn diflannu mewn sefyllfa fwy amhersonol". Roeddent hefyd yn teimlo mai'r "ysgol yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn diogelu'r ymdeimlad o gymuned sydd yn bodoli yma yn Y Talwrn. Mae'r ysgol hefyd yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwylliant eisteddfodol. Byddai cau'r ysgol yn arwain at dranc yr eisteddfod, sydd bellach yn enghraifft amheuthun o eisteddfod leol ar yr ynys". Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 8.

9.4 Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod "o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol".

9.5 Er nad oes penderfyniad wedi ei wneud, roedd 30% o'r ymatebwyr yn teimlo byddai cau Ysgol Talwrn yn cael effaith andwyol ar ddyfodol yr Eisteddfod leol, Ysgol Sul a Neuadd y Pentref.

9.6 Teimlai 34% o'r ymatebwyr fod Ysgol Talwrn yn holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg ac y byddai cau Ysgol Talwrn yn "lladd y gymuned".

9.7 Crybwyllodd rhai ymatebwyr (8/%) yr anghenion dysgu ychwanegol sydd gan eu plentyn a bod Ysgol Talwrn yn ddelfrydol i'w plentyn o ran maint a byddai ei chau yn cael effaith andwyol arnynt.

9.8 Nid oedd 14% o'r ymatebwyr yn gweld yr angen am yr ymgynghoriad gan mai tua 4% o lefydd gweigion oedd yn Ysgol Talwrn yn 2015/16 ac roedd eraill yn dadlau fod safonau yn gwella ar hyn o bryd. Roedd 6% ym meddwl fod yr ymgynghoriad yn negyddol tra roedd 6% yn meddwl fod y Cyngor wedi penderfynu ar ddyfodol Ysgol Talwrn yn barod.

9.9 Sefyllfa traffig yn Ysgol y Graig oedd yn poeni 18% o ymatebwyr.

9.10 Dadl 16% o ymatebwyr oedd byddai cau Ysgol Talwrn yn cael effaith andwyol ar lesiant plant a crybwyllwyd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (2014).

9.11 Barn 8% o ymatebwyr oedd bod angen mwy o wybodaeth ar gostau opsiynau yn y ddogfen ymgynghori e.e. amcanbris dosbarth symudol.

9.12 Rhoddwyd cynnig ymlaen i gael dosbarth symudol newydd i'r ysgol i gynyddu'r capasiti tra awgrymodd rhanddeiliad arall dylid defnyddio ystafelloedd symudol sydd yn Parc Mownt ar hyn o bryd ar gyfer hyn. Roedd y rhanddeiliad hwn yn amau ffigwr capasiti'r ysgol.

9.13 Crybwyllwyd Y Confensiwn ar Hawliau'r Plant y Cenhedloedd Unedig gan un randdeiliad a'r angen i wrando ar lais y plant. Crybwyllodd rhanddeiliad arall yr angen am Asesiad Effaith Cymunedol. [Bydd y rhain yn cael eu paratoi ar gyfer yr ymgynghori statudol].

9.14 Anfonodd un ymatebydd gopi o bapur academaidd sy'n ymddangos ei fod yn seiliedig ar y drefn ysgolion mewn gwlad arall. Mae'n sôn am faint ysgolion bach a'u deilliannau addysgol.

9.15 Anfonodd un ymatebydd gopi o lythyr gan yr Aelod Seneddol lleol. Awgrymodd y dylai rhieni a rhanddeiliaid eraill "gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gan dalu sylw i rinweddau sy'n ychwanegu at ddatblygiad a llesiant y plant ac at ysbryd cymunedol yr ysgol".

9.16 Awgrymodd un rhiant y byddai buddsoddi mewn dosbarth symudol yn cynyddu cynhwysedd yr ysgol i gymryd y 'gorlif' sydd yn Ysgol y Graig. Y ddadl oedd na fyddai hyn yn cynyddu costau rhedeg yr ysgol ac na fyddai angen i'r Adran Gynllunio ymdrin â'r sefyllfa draffig fyddai ymestyn Ysgol y Graig yn ei greu.

## 10. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

10.1 Derbyniwyd ymateb yr un gan y Pennaeth, staff yr ysgol a gan Llywodraethwr.

10.2 Roedd y Llywodraethwr ym mynegi pryder am faint unrhyw estyniad posib a "bod angen i'r awdurdod feddwl am estyniad llawer mwy". Soniodd hefyd fod gan Ysgol y Graig "gae pêl-droed ond mae o rhy wlyb i'r plant chwarae arno felly mae pawb o'r plant ar yr iard a tri sesiwn chwarae i alluogi pawb i'w ddefnyddio".

10.3 Roedd y staff yn gefnogol i opsiynau 6.6.3 (Ymestyn at i fyny ym mhob pen i'r ysgol) a 6.6.4 (Ymestyn allan ym mhob pen i'r ysgol)

10.4 Roedd gan y staff syniadau eraill yn ogystal sef:
1) Symud adran y Cyfnod Sylfaen (CS) i'r rhan CA2 ac addasu'r adeilad fel bod plant CS yn cael mynediad i ardal tu allan diogel i lawr ochr yr adeilad. Byddai hyn yn golygu bod plant CS yn defnyddio'r ardal hwn amser chwarae ac yn rhyddhau'r iard ar gyfer CA2. Nid oes gan dosbarthiadau'r CS (ag eithrio'r meithrin) fynediad i ardal tu allan diogel. Nid oes man penodedig ar eu cyfer.
2) Byddai adeiladu llawr arall yn cynyddu capasiti heb i ni golli tir ar gyfer y plant. Ni fyddai hyn yn amharu ar unrhyw un arall gan nad oes tai yn agos at yr adeilad.
3) Newid statws Ysgol Graig a Corn Hir i fod yn ysgolion CA2 ac adeiladu ysgol newydd ar gyfer y CS
4) Byddai angen maes parcio ychwanegol ar gyfer yr ysgol – posibilrwydd o ddefnyddio'r cae ar draws y ffordd i'r ysgol?
5) Adeiladu ar dir Ysgol Gyfun a datblygu honno i fod yn safle sy'n cynnig addysg 3 – 18oed ar gyfer Llangefni

10.5 Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 9.

## 11. YMATEBION ERAILL

11.1 Cafodd pobl ifanc ardal Llangefni'r cyfle i fynegi eu syniadau, sylwadau a gofyn cwestiynau am y cynllun moderneiddio ysgolion arfaethedig i ardal Llangefni ar ddydd Iau 24ain Tachwedd 2016. Roedd y sesiwn awr yn un rhagweithiol iawn - ble roedd y bobl ifanc yn awyddus ac yn barod iawn i gyfrannu. Roedd y bobl ifanc yn fodlon i'w sylwadau/ cwestiynau isod gael eu rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor Gwaith.

### Cludiant i'r ysgol newydd

- Beth am faterion / problemau trafnidiaeth i'r ysgol ac adref o'r ysgol i'r rhieni/gwarcheidwaid sydd ddim yn gyrru car? (h.y. os yw'r ysgol newydd yn bellach o'u cartref na'u hysgol bresennol)

- Oes rhaid i rieni dalu i roi eu plant ar y bws ysgol? Ydi hyn yn gysylltiedig efo toriadau arfaethedig i'r gyllideb o dalu ffi os rydych yn byw o fewn radiws 3 milltir i'r ysgol.

- Beth am y plant sy’n dymuno aros i weithgareddau ar ôl ysgol pan fydd y bws wedi mynd? Sut maent yn mynd adref os nad yw eu rhieni yn gyrru car? A fydd hyn yn arwain at fwy o blant yn cymryd dyddiau i ffwrdd o’r ysgol?

- Sut fydd hyn yn effeithio ysgolion meithrin? Beth am y bobl sydd methu cludo eu plant ifanc i’r ysgol? Oes disgwyl i’r plant ifanc yma fynd ar fws ar eu pen eu hunain i’r ysgol?

  Sylwadau pellach wedi eu hysgrifennu ar ‘post it notes’:
  - Arian tuag at fws ar gael?
  - Sut fydd plant yn cyrraedd yr ysgol? O ble ddaw'r arian?
  - Clybiau ar ôl ysgol i’r plant sydd efo rhieni yn gweithio yn hwyr.

**Effaith ar y gymuned**

- Ydych chi wedi ystyried lle mae’r ysgol newydd yn mynd? A beth fydd yn digwydd i’r ysgolion cynradd eraill?

- Faint o ysgolion newydd fydd yn cael eu hadeiladu? ‘Dachi methu cau nhw i gyd!

- Mae’n bwysig peidio adeiladu ysgol sydd ddim rhy bell i bawb gyrraedd.

- Ydi plant am golli allan ar glybiau allanol os ydyn nhw’n cael eu addysg tu allan i’w cymunedau/lle mae nhw’n byw?

- Faint mae hyn am effeithio cymunedau os yw ysgolion yn cau? Mae ysgolion cymunedol yn cadw’r gymuned i fynd ac yn adeiladau sydd yn cael eu defnyddio yn aml.

  Sylwadau pellach wedi eu hysgrifennu ar ‘post it notes’:
  - Adeiladu ysgol newydd a chau ysgolion am ladd cymdeithas.
  - Ysgol newydd ella colli cymuned.
  - Os bydd yr ysgol yn cael ei adeiladu posib fod mwy o bobl isio symud eu plant i’r ysgol yma, hyn yn effeithio ar yr ysgolion eraill.
  - Sut ydych chi am sicrhau bod yr Iaith Gymraeg am barhau
  - Canolfannau Cymraeg?

**Costau**

- Fydd yna wisg ysgol newydd? Sut fydd pobl yn gallu fforddio dillad newydd?
- Ydio’n mynd i gostio cau yr ysgolion i lawr?

  Sylwadau pellach wedi eu hysgrifennu ar ‘post it notes’:
  - Dwi’n meddwl ddylsia nhw greu ysgol newydd oherwydd fydd yn costio llai i redeg un ysgol.
  - Ysgol y Graig yn adeilad eithaf newydd, ydi hynny’n golygu y bydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol?
  - New school problems. New teachers = £, building time= £.
  - Uniform funds?
  - A fydd yna nyrs ysgol? Llyfrgell? ‘Tech allowance?’ Costau llyfrau?
  - Adnoddau gwell = addysg gwaeth.

**Swyddi penaethiaid ac athrawon**

- Bydd llai o gyfleoedd i athrawon os ydi'r ysgolion newydd yn cael eu adeiladu?
- Disgybl yn ofni y bydd ei rieni yn colli ei swyddi fel penaethiaid a bod hyn yn rwystr iddo fynd i'r Brifysgol.

  Sylwadau pellach wedi eu hysgrifennu ar 'post it notes':
  - Ysgol newydd = colli prifathrawon gorau yn yr ysgolion eraill oherwydd fwy yn trio am y swydd yn yr ysgol newydd.
  - Ydych yn cael athro/athrawes i bob pwnc ta pob dosbarth?
  - Athrawon yn colli swyddi
  - Colli swyddi athrawon.

**Sylwadau eraill**

- Mae adeiladu ysgolion mawr yn gallu boddi'r plant, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Sut fyddwch yn sicrhau nad yw eu hanghenion yn cael eu hanwybyddu mewn ysgol mor fawr â gyda nifer o blant?
- Bwlio yn risg o fewn ysgolion mawr.
- Disgybl yn cwestiynu safonau isel yn un o'r ysgolion wrth edrych ar y ddogfen ymgynghori. Disgybl yn meddwl bod y safonau wedi gwaethygu yno, yn enwedig ers y cyfnod fynychodd ef yr ysgol benodol yna.

Sylwadau pellach wedi eu hysgrifennu ar 'post it notes':

- A ydynt angen ysgol newydd?
- Sawl ysgol fydd yn cau?
- A fydd yr ysgol yn ecogyfeillgar?
- Gormod o blant?
- Cau'r ysgolion sydd yn gwneud gwaethaf e.e. canlyniadau gwael.
- Llai cyffrous i symud i ysgol uwchradd gan fod y plant yn nabod pawb yn barod.
- Ysgol Newydd gallu rhedeg allan o le, ella ystyried cau fwy o ysgolion er mwyn un newydd eto.
- Gwneud y symud o ysgol gynradd i uwchradd yn llawer haws.
- Ysgol newydd - adnoddau newydd. Digon o le i blant.
- Dim llawer o wahaniaeth rhwng yr ysgol gynradd a'r uwchradd.
- Gwneud ffrindiau newydd
- Adnewyddu- gwella ac adio at yr adeilad, i gael fwy o le i blant.
- Adnewyddu hen ysgol
- A ydych yn adeiladau 2 ysgol mawr newydd?

11.2 Er nad oes rheidrwydd statudol ar yr Awdurdod i ymgynghori'n anstatudol, yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) a'r Eglwys Gatholig (Esgobaeth Wrecsam);

- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol
- Estyn;
- undebau’r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

## 12. DADANSODDIAD OPSIYNAU

Yn y cyfarfodydd ymgynghori ac yn ystod gweddill y cyfnod ymgynghori, cyflwynwyd yr awgrymiadau ychwanegol canlynol sy’n awgrymu newidiadau posib i'r cyfluniad presennol mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori ac i’r cyfarfodydd:

i. Un ysgol gynradd newydd yn lle Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn ac Ysgol Y Graig.
ii. Ysgol newydd ar gyfer disgyblion oedran 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Llangefni.
iii. Ysgol gynradd newydd yn Llangefni yn ogystal ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Graig.
iv. Opsiwn 6.2.9 gan gynnwys Ysgol Henblas
v. Ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Esceifiog

Mae’r dadansoddiad opsiynau yn canolbwyntio ar y 9 opsiwn a amlinellwyd, sef rhai oedd yn y ddogfen ymgynghori ac eraill gododd yn ystod yr ymgynghori. Rhestrir yr opsiynau isod:

| Opsiwn | Rhif yn y ddogfen ymgynghori anstatudol | |
|---|---|---|
| 1 | - | Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn a’r Graig i ysgol newydd i 960 o blant |
| 2 | - | Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, Talwrn i ysgol newydd i 600 |
| 3 | 6.1.6 a 6.2.9 | Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir i ysgol newydd i 330 o blant |
| 4 | - | Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir, Esceifiog, Henblas, ysgol newydd i 450 o blant |
| 5 | - | Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni i 150 o blant |
| 6a | - | Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Gaerwen i 150 o blant + meithrin ar y safle presennol |
| 6b | - | Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Gaerwen i 150 o blant + meithrin ar safle amgen |
| 7 | 6.5.6 a 6.6.5 | Ymestyn Ysgol Y Graig i’r ysgol i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn |
| 8 | 6.3.5 | Addasu Ysgol Esceifiog |
| 9 | 6.4.5 | Addasu Ysgol Henblas |

Gwerthusir pob un o'r opsiynau hyn a’u sgorio allan o 10 yn erbyn y gyrwyr newid a amlinellir isod.

1. Codi safonau addysgol
2. Lleihau nifer llefydd gweigion
3. Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl
4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib
5. Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch
6. Cynyddu capasiti arweinyddol
7. Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol
8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
9. Ffactorau daearyddol a theithio

Mae'r gwerthusiadau cyffredinol yn cael eu cyflwyno yn yr adran ganlynol. Mae angen ystyried y sylwadau canlynol ochr yn ochr â'r sylwadau canlynol.

- Gellir dosbarthu rhai o'r ysgolion dan sylw fel ysgolion bach h.y. ysgolion sydd a llai na 100 o ddisgyblion megis Ysgol Bodffordd, Ysgol Henblas ac Ysgol Talwrn. Os yw nifer y disgyblion all-ddalgylch yn cael eu hystyried, yna mae nifer y disgyblion yn Ysgol Bodffordd ac Ysgol Talwrn dros 33%, sydd yn golygu nad yw cynnal ysgolion o'r maint yma yn gynaliadwy.
- Gwyddys fod materion parcio yn broblemus mewn rhai o'r ysgolion cynradd dan sylw. Bydd angen i unrhyw ail-gyflunio mynd i'r afael â hyn.
| 1. | Codi safonau addysgol | Maint ysgol [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer dosbarthiadau oedrannau cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed.<br><br>Codi safonau ymhellach | Byddai angen cynyddu capasiti'r ysgol i 150 o blant yn ogystal â meithrin. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos. Rhagwelir byddai ysgol o'r maint yma'n gallu cynnal tîm rheoli bychain<br><br>Byddai 5 o ddosbarthiadau yn yr ysgol fyddai yn ei dro yn cynnig cyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinwyr ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.<br><br>Byddai rhai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgol o 150.<br><br>Rhagwelir byddai ysgolion o'r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu. | **9** |
| 2. | Lleihau nifer llefydd gweigion | Cyfraniad at leihau llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod fel bod llefydd gweigion yn 15% yn yr Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn | Mewn ysgol gynradd newydd i tua 150 o ddisgyblion, rhagwelir byddai 7-13 o lefydd gweigion ond byddai'n sicrhau fod yr ysgol yn fwy na 90% llawn. Byddai hyn yn sicrhau bod llefydd yn yr ysgol i'r plant yn ôl y rhagolygon. Ar hyn o bryd, mae'r llefydd gweigion tua 3% yn yr ysgol a rhagwelir byddai llefydd gweigion tua 5% yn yr ysgol gynradd newydd. Felly ni fyddai'r opsiwn hwn yn lleihau llefydd gweigion ond byddai'n sicrhau digonedd o le i ddisgyblion. Arweiniad Llywodraeth Cymru yw y dylid cynllunio ar gyfer 10% o lefydd gweigion. Os byddai'r opsiwn hwn yn cael ei wireddu, byddai llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod yn parhau i fod o gwmpas 12%. | **6** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. | Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y pen yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Hyn yn arwain at arbedion cyllidol gan hefyd defnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai addasu'r ysgol gynradd yn cynyddu ychydig (2.4%) ar gost y pen yn yr ysgol o £4,263 i tua £4,364. Ni fyddai hyn yn lleihau cyfartaledd yr Awdurdod sef £4,109.<br><br>Ni fyddai arbedion ond byddai costau net blynyddol yr opsiwn yma yn £11,626 a byddai cost benthyca flynyddol yn £54,859. | **2** |
| 4. | Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan<br><br>Mannau chwarae addas<br><br>Ardaloedd staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf. | Byddai addasu'r ysgol gynradd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Buasai'r cyfleusterau dosbarth yn cynnwys ystafelloedd dosbarth o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o safon dda ac yn agos at y dosbarthiadau ayb. Cynllunnir go gyfer ardaloedd addysgu a dysgu tu allan i'r dosbarthiadau.<br><br>Cynllunnir mannau chwarae pwrpasol ar gyfer disgyblion o wahanol oedran.<br><br>Darperir swyddfeydd addas ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA'r athrawon.<br><br>Buasai'r ysgol wedi'i rhwydweithio gydag adnoddau TGCh yn integredig yng nghynllun pob ystafell ddosbarth. | **10** |
| 5. | Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch | Cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar lefel yr ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch-<br>1.diogelwch mynediad i'r safle a'r adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai addasu'r ysgol yn dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu trefn i sicrhau bod cynnal a chadw cyfnodol yn cael sylw priodol.<br><br>Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn sicrhau bod materion diogelwch yr adeilad yn cael gwell sylw.<br><br>Byddai'r dyluniad yn rhoi sylw priodol i drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant/cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw priodol i faterion yn ymwneud a pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau. | **10** |
| 6. | Cynyddu capasiti arweinyddol | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Byddai disgwyl i Bennaeth gyda thua 150 o blant fod yn addysgu am ran o'r amser ond mae'r pennaeth yn 100% digyswllt ar hyn o bryd. | **10** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol | Darpariaeth cyn ac ôl-ysgol e.e. clybiau brecwast, clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. | Fe fyddai'r cyfleusterau yn yr ysgol wedi'i haddasu'n addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw weithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol. Ni fyddai hyn yn golygu colli adeilad ysgol fel adnodd cymunedol.<br><br>Fe fyddai'r adnoddau hefyd yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol e.e. neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo gan y Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau cadw'n heini. | **10** |
| 8. | Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. | Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol wedi'i haddasu yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| 9. | Ffactorau daearyddol a theithio | Pellter teithio.<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau cludiant | Ni fyddai newid yn y ffactorau hyn wrth addasu'r ysgol gynradd. Byddai nifer y plant dal yn gallu cerdded i'r ysgol er cydnabyddir fod hyn yn ddibynnol ar y dewis o safle ar gyfer yr ysgol newydd h.y. y man ble lleolir yr ysgol.<br><br>Ni fyddai cyfeiriad teithio i'r ysgol yn newid cyfeiriad teithio'r rhieni i i'r gwaith.<br><br>Fe fyddai costau cludiant yr un peth. | **7** |
| | **Cyfanswm** | | | **74** |

**Opsiwn 9: Addasu Ysgol Henblas**

| Rhif | Gyrrwr | Meini Prawf o fewn y gyrwyr | Sylwebaeth | Sgôr. |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Codi safonau addysgol | Maint ysgol [100 neu fwy]<br><br>Capasiti'r tîm arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau<br><br>Athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill<br><br>Lleihau nifer dosbarthiadau oedrannau cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed.<br><br>Codi safonau ymhellach | Gellir addasu'r ysgol a chadw'r capasiti yr un peth neu ei gynyddu drwy ymestyn os oes angen. Yn ôl fformiwla'r Awdurdod byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle byddai gan y pennaeth gyfrifoldeb dosbarth am ran o'r wythnos. Rhagwelir byddai ysgol o'r maint yma'n gallu cynnal tîm rheoli bychain<br><br>Byddai 4 neu 5 o ddosbarthiadau yn yr ysgol fyddai yn ei dro yn cynnig cyfle i athrawon unigol weithredu fel arweinwyr ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a'r pynciau unigol.<br><br>Byddai rhai dosbarthiadau oedran cymysg yn yr ysgol.<br><br>Rhagwelir byddai ysgolion o'r maint hyn yn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd i gyfarfod ag anghenion plant unigol fyddai yn ei dro yn arwain a chodi safonau ar draws yr ystod gallu. | **6** |
| 2. | Lleihau nifer llefydd gweigion | Cyfraniad at leihau llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod fel bod llefydd gweigion yn 15% yn yr Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol<br><br>Ysgolion unigol yn fwy na 85% llawn | Mae'r rhagolygon yn awgrymu byddai'r llefydd gweigion yno yn llai na 15%. Byddai hyn yn sicrhau bod llefydd yn yr ysgol i'r plant. Ar hyn o bryd, mae'r llefydd gweigion tua 16%. Felly gallai ymestyn yr ysgol gynyddu'r llefydd gweigion. Arweiniad Llywodraeth Cymru yw y dylid cynllunio ar gyfer 10% o lefydd gweigion. Os byddai'r opsiwn hwn yn cael ei wireddu, gall llefydd gweigion ar draws yr Awdurdod yn cynyddu o'r 12% presennol. | **4** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3. | Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl | Lleihau'r amrywiad yng nghost y pen ar draws yr Awdurdod ac ar draws yr ardal fel bod cost y pen yn nes at gyfartaledd yr Awdurdod.<br><br>Hyn yn arwain at arbedion cyllidol gan hefyd defnyddio'r gyllideb yn fwy effeithiol ac effeithlon | Byddai addasu'r ysgol gynradd yn cynyddu cost y pen yn yr ysgol o £3,445 i £3,507. Ni fyddai hyn yn lleihau cyfartaledd yr Awdurdod sef £4,109.<br><br>Ni fyddai arbedion ond byddai costau net blynyddol yr opsiwn yma yn £6,384 a byddai cost benthyca flynyddol yn £8,644. | **2** |
| 4. | Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | Cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan<br><br>Mannau chwarae addas<br><br>Ardaloedd staffio a gweinyddu priodol<br><br>Cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf. | Byddai addasu'r ysgol gynradd yn arwain at welliant yn yr amgylchedd dysgu. Buasai'r cyfleusterau dosbarth yn cynnwys ystafelloedd dosbarth o faint digonol, golau naturiol da, toiledau o safon dda ac yn agos at y dosbarthiadau ayb. Cynllunnir go gyfer ardaloedd addysgu a dysgu tu allan i'r dosbarthiadau.<br><br>Cynllunnir mannau chwarae pwrpasol ar gyfer disgyblion o wahanol oedran.<br><br>Darperir swyddfeydd addas ar gyfer y Pennaeth a staff gweinyddol, ystafell staff ac ystafell ar gyfer cyfnodau CPA'r athrawon.<br><br>Buasai'r ysgol wedi'i rhwydweithio gydag adnoddau TGCh yn integredig yng nghynllun pob ystafell ddosbarth. | **10** |
| 5. | Sicrhau bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr da a bod dim materion iechyd a diogelwch | Cyflwr yr adeiladau yn lleihau costau cynnal a chadw ar lefel yr ardal.<br><br>Materion iechyd a diogelwch-<br>1.diogelwch mynediad i'r safle a'r adeilad<br>2. Parcio ar gyfer staff, rhieni ac ymwelwyr<br>3. Cyffredinol | Byddai addasu'r ysgol yn dileu'r ôl-groniad cynnal a chadw. Byddai hefyd yn gyfle i sefydlu trefn i sicrhau bod cynnal a chadw cyfnodol yn cael sylw priodol.<br><br>Byddai dyluniad yr ysgol newydd yn sicrhau bod materion diogelwch yr adeilad yn cael gwell sylw.<br><br>Byddai'r dyluniad yn rhoi sylw priodol i drafnidiaeth ar y safle er mwyn sicrhau diogelwch plant/cerddwyr. Byddai hefyd yn rhoi sylw priodol i faterion yn ymwneud a pharcio ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer man gollwng addas ar gyfer bysiau. | **8** |
| 6. | Cynyddu capasiti arweinyddol | Capasiti'r ysgol i ddarparu amser digyswllt digonol.<br><br>Capasiti i allu darparu dirprwy a thîm rheoli. | Byddai disgwyl i Bennaeth gyda thua 140 o blant fod yn addysgu am ran o'r amser. | **2** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7. | Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol | Darpariaeth cyn ac ôl-ysgol e.e. clybiau brecwast, clybiau gweithgareddau ar ôl ysgol, clwb gwarchod plant.<br><br>Gweithgareddau haf a phenwythnos<br><br>Darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. | Fe fyddai'r cyfleusterau yn yr ysgol wedi'i haddasu'n addas iawn ar gyfer clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol ac unrhyw weithgareddau eraill y tu allan i oriau ysgol. Ni fyddai hyn yn golygu colli adeilad ysgol fel adnodd cymunedol.<br><br>Fe fyddai'r adnoddau hefyd yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol e.e. neuadd o faint digonol ar gyfer gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo gan y Gymuned, neuadd addas ar gyfer gweithgareddau cadw'n heini. | **10** |
| 8. | Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | Blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. | Byddai'r Awdurdod yn sicrhau bod unrhyw benodiadau i'r ysgol wedi'i haddasu yn gwbl ymroddedig i adeiladu ymhellach ar y sylfaen gref sydd wedi'i osod yn yr ardal yn gyfredol mewn perthynas â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hyfedredd dwyieithog. | **10** |
| 9. | Ffactorau daearyddol a theithio | Pellter teithio.<br><br>Cyfeiriad teithio<br><br>Costau cludiant | Ni fyddai newid yn y ffactorau hyn wrth addasu'r ysgol gynradd. Byddai nifer y plant dal yn gallu cerdded i'r ysgol.<br><br>Ni fyddai cyfeiriad teithio i'r ysgol newydd yn newid cyfeiriad teithio'r rheini i'r gwaith.<br><br>Fe fyddai costau cludiant yr un peth. | **7** |
| | **Cyfanswm** | | | **59** |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r dadansoddiad uchod:

| Gyrwyr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6a | 6b | 7 | 8 | 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Codi safonau addysgol | 10 | 10 | 10 | 10 | 8 | 9 | 9 | 10 | 9 | 6 |
| 2. Lleihau nifer y llefydd gweigion | 8 | 8 | 8 | 8 | 4 | 8 | 8 | 8 | 6 | 4 |
| 3. Lleihau'r amrywiaeth mewn cost y disgybl | 10 | 10 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 2 | 2 |
| 4. Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 5. Sicrhau bod adeiladau ysgol mewn cyflwr da ac nad oes materion iechyd a diogelwch | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 8 | 10 | 8 | 10 | 8 |
| 6. Cynyddu capasiti arweinyddiaeth | 10 | 10 | 10 | 10 | 4 | 10 | 10 | 10 | 10 | 2 |
| 7. Defnydd cymunedol o'r adeilad | 7 | 7 | 10 | 7 | 10 | 10 | 10 | 9 | 10 | 10 |
| 8. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| 9. Ffactorau daearyddol a theithio | 3 | 3 | 6 | 3 | 7 | 7 | 7 | 4 | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **78** | **78** | **80** | **74** | **69** | **78** | **80** | **75** | **74** | **59** |

Dygir sylw at y materion canlynol.

- Mae'r sgoriau ar gyfer ffactorau 4 ac 8 yr un peth gan fyddai'r ysgolion newydd yn sicrhau bod materion penodol sy'n ymwneud ag adeiladau ysgolion, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael sylw mewn ffordd debyg beth bynnag fydd y drefniadaeth derfynol.
- O ran ffactor 5, byddai opsiwn sy'n golygu addasu posib ar ysgol yn ei gwneud hi'n anoddach gwneud unrhyw waith adeiladu yn ystod amser ysgol.
- O ran ffactor 7, byddai opsiynau 1, 2, 4 a 7 yn lleihau'r nifer o adeiladau cymunedol ar gael i'w defnyddio, sy'n arwain at sgôr is i'r opsiynau hynny.
- Opsiwn 3 (cyfuno Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir mewn ysgol gynradd newydd) ac opsiwn 6b (adeiladu ysgol newydd yn Gaerwen yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen) sydd â'r sgôr uchaf.

## 13. DATBLYGIADAU TAI YN ARDAL LLANGEFNI

**13.1** Ar gyfer ysgolion cynradd ardal Llangefni, ystyriwyd effaith posib tai newydd yn ystod y cyfnod 2018-2026 yn nalgylch pob ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Byddai hyn yn helpu deall beth fyddai'r twf ychwanegol tebygol yn y dalgylch.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi nifer y datblygiadau tai gyda 0.17, cer amcangyfrif o nifer y disgyblion ychwanegol fydd eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol honno.

| Ysgol | Nifer datblygiadau tai yn y dalgylch | Nifer plant cyfatebol |
|---|---|---|
| Bodffordd | 18 | 3 |
| Corn Hir | 219 | 37 |
| Esceifiog | 36 | 6 |
| Henblas | 0 | 0 |
| Talwrn | 6 | 1 |
| Y Graig | 397 | 67 |

## Bodffordd

Cynhwysedd yr ysgol yw 63 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Bodfordd | 64 | 69 | 75 | 78 | 79 | 78 | 74 |

Gwelir y bydd Ysgol Bodffordd dros ei chapasiti o Fedi 2016 ymlaen. O ystyried effaith posib tai newydd yn nalgylch yr ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol, mae'r niferoedd posib fel a ganlyn:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Bodfordd | 64 | 69 | 75 | 79 | 79 | 79 | 75 | 74 | 74 | 75 | 75 |

## Ysgol Corn Hir

Cynhwysedd yr ysgol yw 204 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Corn Hir | 221 | 226 | 232 | 233 | 240 | 245 | 245 | 242 | 239 | 235 | 231 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2015/16, mae mwy o blant yno na'r cynhwysedd a chynyddu bydd y niferoedd fel mae pethau hyd at Medi 2021.
Rhagwelir bydd 219 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 - 2026 - mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn 2015. Y tebygolrwydd yw y byddai'r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 27 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol Corn Hir. Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 27 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 4.6 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol Corn Hir fel a ganlyn:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Corn Hir | 221 | 226 | 232 | 238 | 244 | 250 | 249 | 247 | 243 | 240 | 236 |

Petai opsiwn 3 yn cael ei wireddu sef adleoli Ysgol Corn Hir ar i safle arall ynghyd ag adleoli disgyblion o Ysgol Bodffordd, byddai'r rhagolygon fel a ganlyn:-

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Corn Hir | *285* | *294* | *307* | 317 | 323 | 329 | 324 | 321 | 317 | 315 | 311 |

Petai cytundeb i gael adeilad newydd i Ysgol Corn Hir a'i chyfuno efo Ysgol Bodffordd, byddai angen i gapasiti'r ysgol fod tua 330 ac i'r rhif mynediad fod oddeutu 45.

**Ysgol Esceifiog**

Cynhwysedd yr ysgol yw 124 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Esceifiog | 120 | 131 | 138 | 137 | 138 | 142 | 142 | 138 | 134 | 131 | 133 |

Erbyn Medi 2017, rhagwelir bydd yr ysgol dros ei chapasiti.

Rhagwelir bydd 36 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 – 2026 – mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn gynharach yn 2015. Y tebygolrwydd yw y byddai 'r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 4.5 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol Esceifiog. Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 4.5 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 0.77 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol neu tua 6 disgybl ychwanegol eisiau mynd i'r ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol Esceifiog fel a ganlyn:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** | **2027** |
| Esceifiog | 120 | 131 | 138 | 138 | 139 | 143 | 143 | 139 | 135 | 131 | 133 | 133 |

O ystyried y niferoedd, byddai angen i naill ai Ysgol Esceifiog wedi'i haddasu neu ysgol newydd gymryd tua 150 o ddisgyblion.

**Ysgol Henblas**

Cynhwysedd yr ysgol yw 96 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Henblas | 81 | 91 | 97 | 96 | 98 | 98 | 92 |

Gwelir fod Ysgol Henblas yn parhau i fod chydig i dan 100 o ddisgyblion tan Medi 2022.

Ni ragwelir fod unrhyw ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 - 2026 ac felly ni ragwelir fod unrhyw dwf ychwanegol am fod yn nalgylch Ysgol Henblas yn y blynyddoedd 2018-2026.

**Ysgol Talwrn**

Cynhwysedd yr ysgol yw 49 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn tabl isod:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Talwrn | 47 | 43 | 43 | 43 | 40 | 43 | 42 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2015/16, mae'r niferoedd yn yr ysgol yn llai na'i chynhwysedd ac yn parhau yn weddol gyson mae'r niferoedd hyd at Ionawr 2021.

Rhagwelir bydd 6 tŷ'n cael ei adeiladu yn nalgylch Ysgol Talwrn yn y blynyddoedd 2018-2026. Byddai hyn yn arwain at 6 x 0.17 = 1 disgybl ychwanegol yn yr ysgol. Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae lle yn yr ysgol i ddisgybl ychwanegol:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Talwrn | 47 | 43 | 43 | 44 | 41 | 44 | 43 |

**Ysgol y Graig**

Cynhwysedd yr ysgol yw 330 a gwelir y rhagamcanion am niferoedd y disgyblion yn y tabl isod:

| | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
| Y Graig | 339 | 336 | 338 | 334 | 330 | 331 | 329 |

Ers dechrau'r flwyddyn ysgol 2016/17, mae mwy o blant yno na'r cynhwysedd bydd hyn yn parhau hyd at ddechrau'r degawd nesaf.

Rhagwelir bydd 397 o ddatblygiadau tai yn y dalgylch o 2018 – 2026 – mae hyn un unol â'r Cynllun Adnau y bu i'r Awdurdod ymgynghori arno yn 2015. Y tebygolrwydd yw y byddai'r tai yn cael eu hadeiladu ar gyfradd o 50 tŷ'r flwyddyn yn nalgylch Ysgol y Graig yn y blynyddoedd 2018/19 at 2025/26.

Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi 50 tŷ'r flwyddyn yn y dalgylch gyda 0.17, golyga hyn y byddai'r datblygiadau tai yn arwain at 8.5 disgybl ychwanegol y flwyddyn eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol. Byddai hyn yn cael effaith ar ragolygon Ysgol y Graig fel a ganlyn:

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Y Graig | 339 | 336 | 338 | 342 | 339 | 339 | 338 | 332 | 347 | 350 | 355 |

Os gweithredir opsiwn 7 sef ymestyn Ysgol y Graig a throsglwyddo disgyblion Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig ac yna cau Ysgol Talwrn, byddai'r rhagolygon fel a ganlyn:-

| | | Nifer a ragwelir ar y Gofrestr yn Medi | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| Y Graig | *339* | *336* | *338* | 386 | 380 | 383 | 381 | 375 | 391 | 395 | 401 |

Byddai angen i'r ysgol estynedig gael capasiti o tua 420. Byddai hyn yn ddigon i gymryd y cynnydd mewn disgyblion fydd yn dod o ganlyniad i'r datblygiadau tai newydd ac o ganlyniad i adleoli disgyblion Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig.

## 14. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

14.1 Mae pob un o'r naw opsiwn arfarnwyd uchod wedi cael eu gwerthuso o safbwynt ariannol. Mae'r canlynol wedi cael eu hystyried ar gyfer pob opsiwn - costau cyfalaf, arbedion refeniw, costau cludiant, derbyniadau cyfalaf a chostau benthyca wedi cael eu hystyried ar gyfer pob opsiwn.

Rhaid nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Bydd benthyca:

- ar gyfradd sefydlog.
- yn digwydd dros gyfnod o 50 mlynedd gan ddefnyddio cyfraddau llog mis Tachwedd 2016.
- yn cael ei gymryd yn ei gyfanrwydd h.y. ar un tro gan nad yw'r gwariant / dyddiad proffilio ar gael. Yn syml, cost ariannu'r swm hwnnw am 50 mlynedd yw'r cyfrifiad hwn.

Dim ond yr elfen benthyca digefnogaeth y rhaglen ysgolion 21ain ganrif mae'r cyfrifiadau hyn yn eu hystyried.

Dylid nodi mai *amcangyfrifon gorau* yw'r costau a'r arbedion sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd nifer o'r opsiynau, os y'u gwireddir, yn creu costau byr dymor megis, apwyntio pennaeth cyn i'r ysgol agor, costau diswyddo, costau amddiffyn tâl, a chostau cynnal adeiladau tan fyddent yn cael ei gwerthu. Mi fydd y costau yma yn rhan o achos busnes, pe gwireddir yr opsiwn, pan fydd nifer yr opsiynau wedi eu cwtogi.

14.2 **Opsiwn 1: Adeiladu un ysgol yn lle'r 6 yn yr ardal**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £12,550,000 | £237,567 | £124,400 | £2,035,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £113,167 | Cost net y prosiect | £10,515,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £4,240,000 |

Mae'r arbedion net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £113,167 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £10,515,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £4,240,000 o fenthyca digefnogaeth, yn £195,464 y flwyddyn.

14.3 **Opsiwn 2: Adeiladu un ysgol yn lle 5 ysgol yn yr ardal**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 2 | £9,280,000 | £172,827 | £124,400 | £985,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion net | £48,427 | Cost net y prosiect | £8,295,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £3,655,000 |

Mae'r arbedion net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £48,427 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £8,295,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £3,655,000 o fenthyca digefnogaeth yn £168,496 y flwyddyn.

## 14.4 Opsiwn 3: Adeiladu un ysgol yn lle 2 ysgol yn yr ardal

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 3 | £7,150,000 | £63,716 | £32,000 | £395,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £95,716 | Cost net y prosiect | £6,755,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £3,180,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £95,716 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £6,755,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £3,180,000 o fenthyca digefnogaeth yn £146,598 y flwyddyn.

## 14.5 Opsiwn 4: Cyfuno Ysgolion Bodffordd, Corn Hir a Henblas, ysgol newydd i 450 o blant

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Arbedion refeniw | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 4 | £7,960,000 | £15,059 | £118,000 | £595,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £102,941 | Cost net y prosiect | £7,365,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £3,385,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £102,941 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £3,385,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £3,385,000 o fenthyca digefnogaeth yn £156,049 y flwyddyn.

## 14.6 Opsiwn 5: Adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol yn Llangefni i 150 o blant

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 5 | £5,600,000 | £541,759 | £0 | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £541,759 | Cost net y prosiect | £5,600,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £2,800,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £541,759 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £5,600,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £2,800,000 o fenthyca digefnogaeth yn £129,080 y flwyddyn.

## 14.7 Opsiwn 6: Adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog

Opsiwn 6a – ar y safle presennol
Opsiwn 6b – ar safle amgen

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 6a | £5,600,000 | £541,759 | £0 | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £541,759 | Cost net y prosiect | £5,600,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £2,800,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig yr opsiwn hwn yn £541,759 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £5,600,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £2,800,000 o fenthyca digefnogaeth yn £129,080 y flwyddyn.

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 6b | £5,950,000 | £541,759 | £0 | £240,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £541,759 | Cost net y prosiect | £5,710,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £2,735,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £541,759 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £5,710,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £2,735,000 o fenthyca digefnogaeth yn £126,084 y flwyddyn.

14.8 **Opsiwn 7: Ymestyn Ysgol y Graig**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 7 | £970,000 | £6,968 | £6,400 | £150,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £13,368 | Cost net y prosiect | £820,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £335,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £13,368 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £820,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £335,000 o fenthyca digefnogaeth yn £15,444 y flwyddyn.

14.9 **Opsiwn 8: Addasu Ysgol Esceifiog**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 8 | £2,380,000 | £11,626 | £0 | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £11,626 | Cost net y prosiect | £2,380,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £1,190,000 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £11,626 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £2,380,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £1,190,000 o fenthyca digefnogaeth yn £54,859 y flwyddyn.

14.10 **Opsiwn 9: Addasu Ysgol Henblas**

| Opsiwn | Cost cyfalaf | Costau ychwanegol | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|---|
| 9 | £375,000 | £6,384 | £0 | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £6,384 | Cost net y prosiect | £375,000 |
| | | Cost i'w gyllido | £187,500 |

Mae'r costau ychwanegol net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £6,384 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £375,000. Byddai costau benthyca, i wasanaethu'r £187,500 o fenthyca digefnogaeth yn £8,644 y flwyddyn.

Cyflwynir crynodeb o'r ffigyrau yn rhannau 14.2 – 14.10 isod.

| Opsiwn | Cost i'w gyllido | Cost neu (Arbediad) net | Cost benthyca'r flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 1 | 4,240,000 | (113,167) | 195,464 |
| 2 | 3,655,000 | (48,427) | 168,496 |
| 3 | 3,180,000 | 95,716 | 146,598 |
| 4 | 3,385,000 | 102,941 | 156,049 |
| 5 | 2,800,000 | 541,759 | 129,080 |
| 6a | 2,800,000 | 541,759 | 129,080 |
| 6b | 2,735,000 | 541,759 | 126,084 |
| 7 | 335,000 | 13,368 | 15,444 |
| 8 | 1,190,000 | 11,626 | 54,859 |
| 9 | 187,500 | 6,384 | 8,644 |

Dengys y ffigyrau mai opsiynau 7, 8 a 9, sef

- Opsiwn 7: Ymestyn Ysgol y Graig;
- Opsiwn 8: Addasu Ysgol Esceifiog;
- Opsiwn 9: Addasu Ysgol Henblas


yw'r opsiynau mwyaf fforddiadwy er nad ydynt yn arwain at arbedion. Er hynny, ni fyddai opsiynau 8 a 9 yn arwain at lefydd ychwanegol o angenrheidrwydd.

Gweler hefyd fod opsiynau 1 a 2, sef

- Opsiwn 1: Adeiladu un ysgol yn lle'r 6 yn yr ardal;
- Opsiwn 2: Adeiladu un ysgol yn lle 5 ysgol yn yr ardal;

yn arwain at yr arbedion refeniw uchaf er bod cost benthyca yn uwch na'r arbedion.

Er mwyn ystyried yr opsiynau uchod, mae angen edrych ar ddaearyddiaeth yr ardal:-




Gweler o’r ffigyrau yn y ddogfen ymgynghori anstatudol fod y mwyafrif helaeth o ddisgyblion Ysgol Esceifiog (98% yn 2015/16 a 92% ym Medi 2016) yn byw o fewn i’r dalgylch. Mae canran uchel o ddisgyblion yn Gaerwen yn cerdded i'r ysgol ac mae cynaliadwyedd yn fater pwysig i Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen "**Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned** - Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru" o fis Mai 2009 yn dweud: "Rydym yn awyddus i gynyddu canran y plant sy'n cerdded i'r ysgol i gyfateb i gyfartaledd y DU". Felly, gellir dadlau fod yr ysgol hon yn gwasanaethu ei chymuned. Ar hyn o bryd mae’r Pennaeth yn rhannu ei amser gydag Ysgol Corn Hir.

Mae opsiynau 6a, 6b ac 8 yn ymwneud ag Ysgol Esceifiog ac o’r rhain, **opsiwn 6b** sy’n sgorio uchaf sef adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen.

Agorwyd Ysgol y Graig yn 2008/09 ac mae wedi ei hadeiladu mewn ffordd y gellir ei hymestyn ar y ddau ben. O ystyried fod nifer o blant Ysgol Talwrn yn mynd o Langefni i’r ysgol, awgrymir ymestyn Ysgol y Graig, trosglwyddo disgyblion Ysgol Talwrn yno a chau Ysgol Talwrn yn unol

ag **opsiwn 7**.
Bydd Ysgol Bodorgan yn cau ar Awst 31 2018 a bwriedir trosglwyddo'r plant i'r ysgol gynradd newydd dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru fydd yn dod i Niwbwrch. Er hynny, efallai bydd rhai rhieni'n dewis trosglwyddo eu plant i ysgol sy'n agosach at yr A55 sef Ysgol Henblas. Awgrymir felly ei chadw ar agor a'i hadnewyddu / haddasu yn unol ag **opsiwn 9**.

O ran Ysgol Corn Hir, nodwyd, er mai tua 30 oed yw'r ysgol, fod ei dosbarthiadau'n fach a'i bod yn orlawn ond fod ei hymestyn yn anodd. Awgrymir adeiladu ysgol gynradd newydd i gymryd disgyblion Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd sef **opsiwn 3**.

Mae opsiwn 5, sef adeiladu ysgol gynradd ychwanegol yn Llangefni yn cael sgôr isel o 69 sy'n ei ddiystyru.

## 15. ARGYMHELLIAD

15.1 **Opsiwn A**

Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 8, sef *addasu Ysgol Esceifiog*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

**Opsiwn B**

Byddai hwn yn seiliedig ar:

- Opsiwn 3, sef *adeiladu un ysgol yn lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.*
- Opsiwn 6b, sef *adeiladu ysgol gynradd newydd yn Gaerwen i 150 o blant yn lle Ysgol Esceifiog ar safle amgen*
- Opsiwn 7, sef *ymestyn Ysgol y Graig i gymryd disgyblion Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn*
- Opsiwn 9, sef *addasu Ysgol Henblas*

Byddai angen i unrhyw ailfodelu mynd i'r afael â'r materion traffig a nodwyd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r opsiynau'n amodol ar fforddiadwyedd.

Gallai'r opsiwn hwn hefyd gynnwys y ffederasiwn o Ysgol Henblas gydag ysgol arall h.y. cynnal yr ysgol ar safle'r presennol ond o dan drefniant rheoli gwahanol.

Atodiad 1

# Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'r Cyngor yn ystyried Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain fel un sy'n gallu darparu'r canlynol:

**Cyfleusterau Addysgu a Dysgu**

Mannau addysgu addas sy’n cynnwys digon o:

- Ystafelloedd dosbarth sydd o faint addas gydag ymdeimlad o ofod a golau (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)
- Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys ardaloedd tu allan (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)
- Mannau ymarferol arbenigol, gan gynnwys ardal ar gyfer gweithgareddau technoleg a chefyddydol
- Offer TGCh modern
- Cyfleusterau storio digonol (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)
- Mynediad i ystafell adnoddau dysgu (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)
- Ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau llai e.e. targedu ac A.A.A.
- Man dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol
- Neuadd ysgol a chyfleusterau ciniawa ac o faint priodol. (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu). Gan ddibynnu ar faint yr ysgol, gall hyn fod yn neuadd ysgol defnydd deuol. Efallai y bydd angen lloriau sbring ar gyfer neuaddau ysgol defnydd deuol. Byddai angen storfa pwrpasol i’r byrddau bwyta.

**Cyfleusterau Cymunedol**

Yn gallu darparu ystod o wasanaethau yn y gymuned yn ystod oriau ysgol, naill ai trwy ardaloedd a rennir neu ardaloedd pwrpasol. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnydd cymunedol eang gan gadw diogelu plant yn flaenoriaeth.

**Cyfleusterau Chwarae**

- Ardal laswelltog breifat a diogel o faint digonol ar dir yr ysgol (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)
- Man chwarae caled (iard ysgol) o faint digonol ar gyfer capasiti'r ysgol (yn unol â’r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a’r Bwletinau Adeiladu)

**Ardaloedd Staff a Gweinyddu**

- Ystafell(oedd) athrawon
- toiledau ar wahân i staff
- ardal waith i staff (CPA)
- swyddfa’r Pennaeth
- swyddfa Ysgrifennydd / Weinyddol
- ystafell Archwiliadau Meddygol neu Ystafell ar gyfer cleifion
- ystafell Adnoddau / llungopïo
- ystafell gyfweld

**Cyffredinol**

- Adeiladau ysgol mewn cyflwr ardderchog ac yn cael eu cadw ar y lefel hon.
- Sicrhau bod mynediad ar gael i bobl anabl i'r ystod lawn o gyfleusterau
- Adeilad(au) diogel :
    - Sydd â derbynfa gydag arwyddion i ddynodi ei lleoliad
    - Y gellir eu cloi yn ystod y dydd gyda mynediad i ardaloedd a ddefnyddir gan blant trwy un pwynt mynediad a reolir
    - Gyda ffens ddiogel o gwmpas y safle ond sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus i gaeau chwarae y tu allan i oriau ysgol a system larwm lladron
    - Gyda llecyn wedi ei ffensio/amgáu ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen
    - Gyda chamerâu goruchwylio - mewnol ac allanol
    - Yn cyrraedd safonau rheoliadau adeiladu sy'n gyfredol ar adeg adeiladu'r ysgol
    - Gyda systemau canfod tân a systemau chwistrellu
    - Sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) fel bod yr holl adeilad yn hygyrch i bawb.
    - Mynediad ar wahân i gerbydau a cherddwyr
    - Man troi / 'gollwng' ar gyfer bysus (lle bo'n briodol)
    - Llecyn diogel i gadw beiciau
    - Ni fydd unrhyw ystafelloedd dosbarth symudol neu leoedd dysgu dros dro yn rhan o ysgol newydd
    - Bod nifer briodol o ystafelloedd ymolchi / toiledau / ystafelloedd cotiau ar gyfer disgyblion
    - Dylid cynnwys y dechnoleg adnewyddadwy lle'n briodol e.e. tyrbinau gwynt, paneli solar/ffotofoltaïg, cyfleusterau ailgylchu, pympiau gwres daear a / neu fwyleri tanwydd pren i sicrhau y cydymffurfir â safonau BREEAM er mwyn lleihau ôl-troed carbon.
    - Dylai pob cyfeiriad at safonau maint / gofod gydymffurfio â'r canllawiau arwynebedd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn sydd yn y Bwletinau Adeiladu priodol.

**Atodiad 2**

***Ysgol Gymuned Bodffordd***

Pennaeth / Headteacher:
RHYS GLYNNE ROBERTS B.Add / B.Ed
pennaeth.bodffordd@ynysmon.gov.uk

*Cydweithio, cyd-ddysgu, cyd-lwyddo*
*To work, to learn and succeed together*

YSGOL GYMUNED

Ysgol Gymuned Bodffordd
Bodffordd
Ynys Mon
LL77 7LZ
01248 723 384

Annwyl Reolwr Rhaglen Moderneiddio,

Cynigiwn y sylwadau canlynol fel ymatebion Corff Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd i'r ddogfen ymgynghori anstatudol ar gyfer ysgolion Dalgylch Llangefni (Band A).

Rydym yn cydnabod bod problem eisiau ei ddatrys yn y dalgylch o ran ysgolion y llawn ond rydym oll fel llywodraethwyr yn unfrydol byddai gweithredu opsiwn i gau Ysgol Gymuned Bodffordd yn gwbl anaddas ac yn anghyfiawn.

Hoffem dynnu eich sylw at y canlynol:

- Dewis rhieni dros pa ysgol sydd i'w plant yn cael ei danseilio / didddymu pe byddai gorfodaeth arnynt i symud i leoliad ysgol newydd. Mae mwyafrif llethol o rieni disgyblion all-ddalgylch yr ysgol wedi dod i Ysgol Gymuned Bodffordd drwy ddewis personol. 2 ddisgybl sydd yn gost Awdurdod sydd yn teithio o ardal Trefor. Daw'r disgyblion all-ddalgylch yma drwy ddewis rhieni ac ar gost personol.
- Mae cefnogaeth rhieni i barhad bodolaeth Ysgol Gymuned Bodffordd yn llwyr o'r hyn rydym wedi'i weld o'r nifer fawr o ymatebion i'r ymgynghoriad sydd wedi dod i law.
- Mae cryfder naws ac ethos ofalgar, teuluol, cynhaliol, cymunedol a Chymreig yr ysgol yn gwbl amlwg. Yn ein barn ni mae'r ysgol yn hyrwyddo'r ethos a ddisgwyliwn mewn ysgol o'r fath. Mae enw da i'r ysgol a'i staff ac mae'r parch tuag at yr ysgol a'i staff yn fawr yn lleol a thu hwnt.
- Mae'r staff wedi gweithio'n ddygn i ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion Arolwg ESTYN ym Mehefin 2015 gyda GwE. Mae cynnydd cryf a da iawn wedi bod ac mae hyn wedi'i gadarnhau yn yr Arolwg ddilynnol fu yn ystod Hydref 2016 yn ddiweddar.
- Mae ffocws pawb yma ar symud yr ysgol yn ei blaen ac yn effeithiol.
- Mae'r ysgol yn rhan annatod o gymuned ddiwylliadol fyw. Mae'r ysgol yn hwb cymunedol, yn union yn ol disgwyliadau'r Cynulliad. Mae natur diwylliant yr ardal yma yn unigryw ac mae natur diwylliadol yr ardal yn treiddio i'r ysgol. Mae'r cyswllt yn gryf rhwng yr ysgol ag Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd, Bodffordd Cyf, a Chylch Meithrin Bodffordd i enwi dim ond 3. Mae'r cyswllt cymunedol yn eang iawn yma.
- Mae Cylch Meithrin Bodffordd yn arwain y sector mewn sawl agwedd ac yn rhannu'r safle gyda'r ysgol . Maent newydd dderbyn hawl i gynyddu rhif derbyn i 20 o blant. Mae synergedd naturiol rhwng y Cylch Meithrin a'r Ysgol i ddatblygu Cymry bach lleol y dyfodol. Mae'r cyd-weithio rhwng y Cylch a'r ysgol yn agwedd gref iawn.

- Mae'r cyd-weithio rhwng y Gymuned a'r ysgol yn esmwyth ac yn effeithiol. Mae'r Ganolfan sydd dan reolaeth yr ysgol, yn fwrlwm cyson gyda'r nos yn ystod yr wythnos. Os oes gofyn, caiff yr ysgol ei defnyddio hefyd.
- Mae busnesau lleol yn dibynnu ar leoliad yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa o leoliad Blodyn Tatws fel Meithrinfa lleol sydd yn cynnig swyddi lleol i bobl yr ardal. Pobl ardal Bodffordd sydd yn yn cael eu cyflogi yn y Cylch Meithrin.
- Caiff yr ysgol a'i lleoliad ei ddefnyddio gan nifer o sefydliadau lleol ac ehangach. Caiff plant y pentref ddefnyddio cae'r ysgol i chwarae'n ddiogel. Caiff Gwyl Bel-droed Blynyddol Osian Roberts ac Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd ei chynnal yma. Mae'r safle yn cael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio'r ardal a caiff Gwyliau Drama a llenyddol eu cynnal yma. Ar adegau, caiff yr holl adeilad ei ddenyddio gan y Gymuned.
- Rydym yn deall bod ysgolion nad ydynt yn llawn yn llyncu adnoddau ac arian, ond mae Ysgol Gymuned Bodffordd bellach yn llenwi os nad yn llawn. Nid oes lle yn y Cyfnod Sylfaen. Mae 68 disgybl llawn amser a 14 disgybl Meithrin ar y gofrestr ar gyfer 2016/17. Mae nifer o geisiadau am leoedd wedi bod i leoli plant yma y tymor hwn a'n dealltwriaeth ni yw bod y ceisiadau hyn yn cael eu gwrthod - mae hyn yn cynnwys cais ar gyfer 4 plentyn sydd yn byw ym Modffordd ei hun.
- Ein hawgrym ni ar sut i symud ymlaen yw adnewyddu'r ysgol ac adeiladu estyniad – opsiwn 6.1.4 ac opsiwn 6.1.7 ac i chi ystyried mai angen trefol yn y bôn sydd yn gyrru'r ymgynghoriad a'r cynllun moderneiddio ar gyfer Llangefni.
- Bydd angen ysgolion lloeren i'r ardal nawr ac i'r dyfodol yn sicr.

Rydym yn awyddus i wahodd i chi drefnu cynnal asesiad o'r safle ar gyfer ystyried opsiwn estyniad ymhellach. Byddai ysgol fwy yma ym Modffordd fel ysgol loeren yn opsiwn dda i chi pan byddai ysgolion trefol yn lenwi ymhen amser. Ystyriwch y profiad diweddar.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

Ar ran Corff Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Atodiad 3**

# Adolygiad Ysgolion Cynradd Llangefni

# Primary Schools Review in Llangefni

# Ffurflen Sylwadau / Feedback Form

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau inni ar yr opsiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth i'r dyfodol i ddisgyblion cynradd sy'n byw yn ardal Llangefni os gwelwch yn dda.
*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the options for the future provision for primary pupils living in the Llangefni area.*

| | | |
|---|---|---|
| **1.Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?**<br>***1. Do you agree with the reasons for change?*** | Ydw<br><br>Yes | Nac ydw<br><br>No |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.Pa opsiwn ydych chi yn ei gefnogi?** | | | | | | | | | |
| | 6.1.1 | 6.1.2 | 6.1.3 | 6.1.4 | 6.1.5 | 6.1.6 | 6.1.7 | | |
| ***2. Which option do you favour?*** | 6.2.1 | 6.2.2 | 6.2.3 | 6.2.4 | 6.2.5 | 6.2.6 | 6.2.7 | 6.2.8 | 6.2.9 |
| | 6.3.1 | 6.3.2 | 6.3.3 | 6.3.4 | 6.3.5 | 6.3.6 | 6.3.7 | | |
| | 6.4.1 | 6.4.2 | 6.4.3 | 6.4.4 | 6.4.5 | 6.4.6 | 6.4.7 | | |
| | 6.5.1 | 6.5.2 | 6.5.3 | 6.5.4 | 6.5.5 | 6.5.6 | | | |
| | 6.6.1 | 6.6.2 | 6.6.3 | 6.6.4 | 6.6.5 | | | | |

**3. A oes gennych gynigion eraill? / *Do you have any other proposals?***

Dylid rhoi ystyried i'r opsiwn i ddiwallu angenion tref Llangefni yn unig – adeiladu ysgol drefol i gwrdd ag anghenion diffyg lleoedd ysgolion Corn Hir a'r Graig yn benodol. Bydd dal angen ysgolion lloeren ar gyfer y dalgylch a bydd dal angen ysgolion cyfagos. Ni fydd pob rhiant yn bendant am gytuno i symud disgyblion i ysgol fwy pan maent eisioes wedi dewis lleoliad parod eu plentyn. Yn achos nifer fawr o rieni Ysgol Gymuned Bodffordd byddai yna wrthwynebiad pendant. Llenwi wnaiff ysgol newydd (fel sydd wedi digwydd gyda Ysgol Y Graig). Bydd pawb yn ol yn yr un twll ymhen dim.

Ysgol newydd i Corn Hir yn unig.

Dylid fod wedi rhoi ystyriaeth i sefydlu Ysgol 3-16 neu 3-18 mlwydd oed gan ehangu safle Ysgol Gyfun Llangefni. Os am fodereneiddio a bod yn arloesol, dylai'r Cyngor fod wedi rhoi ystyriaeth i'r opswin yma.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**4. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu eich sylw atynt?**
***4. Are there any other matters to which you wish to draw our attention?***

Mae trafodaethau a gwybodaeth ymysg cyhoedd a sydd wedi dod i sylw fod cynllunio eisioes ar gyfer lleoliad ysgol newydd a bod cynllun gwariant ar gyfer sawl ysgol rwyf yn ymwybodol ohonno. Mae dogfen cynllun gwariant wedi dod i law. Pam nad oes cynllun gwariant yn bodoli ar gyfer Ysgol Gymuned Bodffordd pan nad oes penderfyniad wedi ei gymryd ynghlyn a chau Ysgol Gymuned Bodffordd?

Yn anffodus mae teimlad mai aniddigrwydd un neu ddau o Benaethaid sydd wedi gwthio'r agenda yn ei blaen ar gyfer Llangefni ond mae'r effaih ymhell gyrhaeddol ac yn dylanwadu ar fodolaeth sawl ysgol. Mae angen gwneud rhywbeth i ryddhau y straen lleoedd yn nhref Llangefni.

Mae sefyllfa Ysgol Gymuned Bodffordd, maint yr ysgol o ran niferoedd, natur yr ardal a cyflwr yr adeilad yn hawlio dylid cadw hi yn agored fel ysgol.

5. Mae'n ddewisol os ydych chi eisiau rhoi eich manylion yn y blwch isod.
*5. It is optional if you want to enter your details in the box below.*

| Llofnod / *Signature*<br><br>Rhys G Roberts | Printiwch eich Enw / *Print your name*<br><br>Rhys G Roberts |
|---|---|
| Cyfeiriad / *Address*<br><br>[redacted]<br><br>[redacted] | Swydd / Categori'r Ymatebydd<br>(e.e. staff ysgol, rhiant, llywodraethwr, arall)<br>*Post / Respondent's category*<br>*(e.g. staff member, parent, governor, other)*<br><br>*Staff Ysgol* |
| Côd Post / *Postcode LL77 7GA* | |
| Dyddiad / *Date 12.11.2016* | |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.**
***Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation.***


Dychwelwch unrhyw sylwadau at / *Return any comments to:*


| | |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen,<br>Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes,<br>Swyddfeydd y Cyngor,<br>Llangefni,<br>Ynys Môn LL77 7TW.<br><br>Neu anfonwch drwy e-bost at<br>ysgolionmon@ynysmon.gov.uk | Programme Manager,<br>The Lifelong Learning Directorate,<br>Council Offices,<br>Llangefni,<br>Anglesey LL77 7TW.<br><br>Or send them by e-mail to<br>angleseyschools@anglesey.gov.uk |


Mae croeso i chi ddanfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at y Rheolwr Rhaglen tan 13 Tachwedd, 2016
*You are welcome to send any comments or questions to the Programme Manager by 13 November, 2016.*


Atodiad 4

# YMATEB I YMGYNGHORIAD DALGYLCH CEFNI - YSGOL CORN HIR

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
| --- | --- | --- |
| **Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?** |  | Mae Ysgol Corn Hir erbyn hyn yn amlwg yn orlawn o ran maint yr ystafelloedd dosbarth, y neuadd a'r ardal barcio tu allan.<br><br>Does dim digon o le ar gyfer y disgyblion.<br><br>Nid oes digon o le yn adeilad Corn Hir ar gyfer nifer y disgyblion sydd yma ar hyn o bryd.<br><br>Nid yw adeilad ysgol Corn Hir bellach yn addas oherwydd niferoedd plant.<br><br>Mae'r rhagolygon ar gyfer niferoedd mynediad Ysgol Corn Hir yn golygu bod adeilad yr ysgol yn rhy fach i gwrdd a'r gofynion. Mae angen sefydlu cynllun i ddatblygu ag ehangu adeiladau'r ysgol.<br><br>Diffyg gofod yn gyffredinol yn ddrwg iawn ym mhob dosbarth. Hefyd angen buddsoddi arian i greu ardaloedd addas thu allan ar gyfer plant y cyfnod sylfaen. |

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
| --- | --- | --- |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Bodffordd?** |  | Fel cyn ddisgybl yn Ysgol Bodffordd, gresyn i mi yw meddwl cau yr ysgol. Pwysleiswyd mewn cyngerdd yno ychydig dros wythnos yn ôl, Ysgol Gymuned yw Bodffordd felly mae oblygiadau cau'r ysgol yn bell gyrhaeddol. Wedi dweud hynny, mae cau ac ymuno yn amlwg yn ymddangos yn ateb ymarferol i'r sefyllfa sydd ohoni. Oherwydd hyn teimlaf y dylem adael i Bodffordd gynnal eu ymgynhoriad eu hunain yn gyntaf a gweld beth ddaw o hwnnw ond os mai ymuno fydd canlyniad hyn oll mi fydd hi'n bwysig i'r ysgol newydd fod yn sensitif i hyn.<br><br>Mae Bodffrodd yn agos iawn i Corn Hir<br><br>Anodd ymateb yn deg ar hyn o bryd mi fydd trafodaethau i'r dyfodol fydd yn gallu creu y patrwm ac yn sicr bydd llawer o gwestiynau ond o ran agosrwydd dwy ysgol mae'n syniad sy'n gallu rhoi atebion.<br><br>Hyn yn galluogi I ddisgyblion Bodffordd a Corn Hir fanteisio ar adeilad ac adnoddau newydd<br><br>Arolwg Bodffordd wedi amlygu'r pwysau sydd ar benaethiaid sy'n dysgu<br><br>Newid yn rhan o weledigaeth yr AALl o gael penaethiaid di-gyswllt<br><br>Os oes ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol Corn Hir oes ystyriaeth i'r gymuned fanteisio ar logi'r ysgol fel adeilad cymunedol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |


| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
| --- | --- | --- |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Corn Hir?** |  | • Yn dilyn y cyfarfod gyda swyddogion yr Adran Addysg, roedd yn amlwg i mi nad oedd dim un opsiwn arall heblaw 6.2.9 yn bosib. Os yw fy nealltwriaeth yn gywir, er mwyn derbyn cyllid gan y Llywodraeth i gyd ariannu mae'n rhaid i unrhyw gynllun fod yn cwrdd ag amcanion y cynllun datblygu ysgolion. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgol newydd gael ei sefydlu i uno Corn Hir a Bodffordd. Heb arian gan y Llywodraeth i gyd ariannu, fyddai dim digon o arian gan y Cyngor Sir i arainnu ysgol newydd/ datblygu Ysgol Corn Hir.<br>• Cynnwys Ysgol Henblas yn yr ysgol newydd. Newid ffiniau'r dalgylchoedd fel bod yr ysgol newydd yn lleihau'r gwasgedd ar Ysgol Y Graig.<br>• Hoffwn weld enw Ysgol Corn Hir yn parhau yn hytrach na rhoi enw newydd i'r ysgol. Mae gan yr ysgol enw da wedi bod ar hyd y blynyddoedd ac mae'n ysgol yn y band Gwyrdd<br>• Mae angen pictiwr cliriach lle mae plant yn gallu rhoi cais am fynediad i'r ysgol ee lle yn y dref mae llinell derfyn? Mae ysgol newydd yn mynd i dalu ar ei chanfed ac yn mynd i roi lle nid yn unig i'r plant ond i'r staff gael lle i weithio heb law stafell athrawon!! Pa ysgol bynnag ddaw at yr ysgol cofio mai Ysgol Corn Hir fydd hi!<br>• Nid oes lle i dderbyn mwy o blant. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r dosbarthiadau presennol yn cyd- ymffurfio a'r mesuriadau sy'n cael eu cysidro'n dderbyniol. O ganlyniad, mae'r plant ar ben ei gilydd. Nid oes lle digonol ar gyfer staff i gyd-weithio, swyddfa ddigonol i'r Pennaeth, ystafelloedd gotiau addas i'r disgyblion, ystafell dargedu/cynnal cyfarfodydd.<br>• Hyn yn gwneud synwyr yn ariannol - cyllid gan Llywodraeth Cymru yn bosibl gyda'r opsiwn yma<br>• Byddai buddiannau amgylcheddol sylweddol yn dod gyda ysgol newydd e.e. gwell trefniadau parcio a diogelwch maes parcio, mannau addas i ollwng plant, arbed arian yn y tymor hir gyda adeilad gwell parthed defnydd o egni, gwresogi ayyb, gwell ystyriaeth i les staff drwy sicrhau ystafell addas ar gyfer CPA, cyfarfodydd, cawod i'r rhai sy'n dymuno beicio i'r ysgol ayyb.<br>• Byddai safle newydd yn galluogi cynllunio ar gyfer creu canolfan gymunedol i gynnwys neuadd, cae aml ddefnydd aml dywydd, ystafelloedd cyfarfod fyddai ar gael i gynnal gwahanol weithgareddau min nos, yn caniatau cyfleoedd clwb brecwast a chlwb gofal mewn man addas - nid adeilad ysgol yn unig - rhywbeth sydd ar goll yn Llangefni ar hyn o bryd a fyddai'n ymateb i ofynion<br>• Byddai ysgol newydd yn caniatau i'r Ysgol Corn Hir ostwng oed mynediad i dderbyn plant meithrin yn ogystal sydd wedi bod yn fwriad yma. Byddai hefyd yn bosib cyfuno'r cylchoedd meithrin ar y safle er mwyn arbed costau ar y cylchoedd yn ogystal. Dylid ystyried sicrhau ystafell benodoal ar eu cyfer a sicrhau gwasanaeth 'wrap around' ar gyfer gyfer plant oed meithrin ysgol ar cylch.<br>• Wrth ddewis safle newydd i'r ysgol dylid sicrhau bod digon o le i'r ysgol ehangu pe tasa'r angen yn codi y dyfodol a bod y lleoliad yn galluogi'r ysgol wneud mwy o ddefnydd o'r adnoddau sydd eisioes ar gael yn Llangefni e.e. Plas Arthur, Llyfrgell ayyb |


<table>
<tr><th>CWESTIWN</th><th>YMATEB</th><th>SYLWADAU</th></tr>
<tr>
<td>Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Esceifiog?</td>
<td>


<table>
<tr><th>Answer Choices</th><th>Responses</th><th></th></tr>
<tr><td>6.3.1 – Gadael pethau fel y maent</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.3.2 – Ffedereiddio gyda ysgolion eraill</td><td>66.67%</td><td>6</td></tr>
<tr><td>6.3.3 – Cais am arian cynnal a chadw</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.3.4 – Cais am arian adnewyddu'r ysgol.</td><td>11.11%</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6.3.5 – Adeiladu estyniad</td><td>11.11%</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6.3.6 – Llawer arall</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.3.7 – Dosbarth dros dro</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Dim un o'r uchod</td><td>11.11%</td><td>1</td></tr>
</table>
</td>
<td>Adeiladu Ysgol newydd ar safle'r Parc Wyddonol, cyfleoedd arbennig i'r disgyblion. Uno Ysgol Esceifiog gyda Ysgol Parc Y Bont, Llanddaniel. Adleoli ffiniau'r dalgylch i leihau gwasgedd yn Ysgol Llanfair Pwll drwy gynnwys Star ac ardaloedd o Benmynydd / dalgylch Talwrn (yn ddibynnol ar beth fydd yn digwydd yno)<br><br>Ffedereiddio gyda ysgol Parc y Bont ac adeiladu estyniad yn Esceifiog.<br><br>Gellir ffedereleiddio gyda Parc y Bont lawr y lon a chodi ysgol newydd os oes angen<br><br>Anodd mynegi barn am ysgolion eraill y dalgylch heb fwy o wybodaeth.<br><br>Opsiwn yma'n golygu arbediad ariannol a modd rhannu arbenigeddau staff rhwng ysgolion, a sicrhau bod y pennaeth yn ddigyswllt sy'n rhan o weledigaeth yr AALl.<br><br>Dylid ystyried niferoedd disgyblion ADY, ystyried y strategaeth ADY newydd cenedlaethol ac edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn maesydd ADY / meddygol penodol. Byddai'r ysgolion yma yn arwain y sector yn y maesydd ac yn gallu helpu ysgolion eraill y sir. Byddant hefyd yn gallu cynnig darpariaeth i'r plant sydd ddim digon dwys i Ganolfan Addysg y Bont ond nad yw llawn amser yn y prif lif yn addas chwaith.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><th>CWESTIWN</th><th>YMATEB</th><th>SYLWADAU</th></tr>
<tr>
<td>Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Henblas?</td>
<td>


<table>
<tr><th>Answer Choices</th><th>Responses</th><th></th></tr>
<tr><td>6.4.1 - Gadael pethau fel y maent</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.4.2 - Ffederaleiddio gyda ysgolion eraill</td><td>50.00%</td><td>4</td></tr>
<tr><td>6.4.3 - Cais am arian cynnal a chadw</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.4.4 - Cais am arian adnewyddu'r ysgol</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.4.5 - Adeiladu estyniad</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.2.6 - Lleoer arall ar yr ysgol</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>6.2.7 - Dosbarth dros dro</td><td>0.00%</td><td>0</td></tr>
<tr><td>Dim un o'r uchod</td><td>50.00%</td><td>4</td></tr>
</table>
</td>
<td>Ymuno gyda Ysgol Corn Hir a Bodffordd mewn Ysgol newydd ar safle newydd.<br><br>Cau yr ysgol a'i ymuno ag ysgol Corn Hir newydd<br><br>Cau yr ysgol a'i hymuno a Ysgol Corn Hir newydd.<br><br>Ymuno gyda Bodfordd a Corn Hir<br><br>Ysgol Corn Hir a Bodffordd a Henblas i uno i greu un ysgol newydd gan sicrhau’r cyfleoedd gorau i ddisgyblion yr holl ysgolion. Mae data rhifau Ysgol Henblas hefyd yn ymddangos fel eu bod yn gostwng fyddai’n gallu creu sefyllfa negyddol parthed llefydd gweigion yno.</td>
</tr>
</table>

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Talwrn?** |  | Mae nifer o blant ardal Talwrn yn mynychu ysgol y Graig yn barod.<br><br>Mae llawer o blant Y Graig yn gorfod mynd i Dalwrn yn barod<br><br>Safon adeilad Talwrn ddim yn dda iawn - hyn yn golygu bod disgyblion Talwrn yn cael yr un tegwch a phlant Graig<br><br>Gan fod cynifer yn dod i'r ysgol o thu allan i ddalgylch yr ysgol ac o ystyried cyflwyr yr adeilad ar hyn nad yw'n bosib ei gynnig ar y safle e.e. cae, neuadd ddigonol annoeth fyddai buddsoddi mor sylweddol i cyn lleied o blant. |

<table>
<tr><th>CWESTIWN</th><th>YMATEB</th><th>SYLWADAU</th></tr>
<tr><td>Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Y Graig?</td><td>
</td><td>Sefyll i reswm i roi estyniad ar y Graig i dderbyn plant Talwrn ond yn ychwanegol dylid edrych yn fanwl ar ffiniau dalgylchol yr ysgol - yn draddodiadol mae’n debyg fod dalgylchoedd ysgolion sydd wedi cau wedi’i ychwanegu i un ysgol yn benodol sydd wedi ychwanegu at broblemau niferoedd e.e. dalgylch Capel Coch yn rhan o dalgylch Y Graig.</td></tr>
<tr><td>Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer Ysgol Corn Hir?<br>Beth yw'r manteision ar anfanteision?</td><td></td><td>Credaf mai adeilad newydd yw'r unig modd i ateb yr holl ofynion a sicrhau bod safonau'n aros yn uchel.<br><br>Dim cynigion eraill ond hoffwn weld yr enw Ysgol Corn Hir yn parahau i'r adeilad newydd.<br><br>A oes angen edrych ar ddalgylch yr ysgol? A oes lle i dynnu ychydig o bwysau oddi ar Ysgol y Graig trwy ehangu dalgylch Ysgol Corn Hir?</td></tr>
<tr><td>Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer ysgolion eraill yr ymgynghoriad? Beth yw'r manteision ac anfanteision?</td><td></td><td>Efallai un ysgol newydd ar gyfer Bodffordd, YCH, Henblas ac Esceifiog - cynllun tebyg I Ysgol Cybi. Modd cael UDRh cryf a datblygu staff yn arweinwyr<br><br>Cau Ysgol Heblas ac ymuno gyda Corn Hir newydd</td></tr>
</table>

| CWESTIWN | YMATEB | SYLWADAU |
|---|---|---|
| **Oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw atynt neu unrhyw beth ychwanegol dylid ei ystyried?** | | Dylid ystyried bod angen adeilad gyda digon o le ynddi ar gyfer mwy o blant yn y dyfodol ac ar gyfer yr athrawon sydd angen lle i wneud eu gwaith cynllunio a paratoi. Rhaid cofio hefyd bod nifer o athrawon offerynau cerdd yn dod i'r ysgol a bod angen ystafell arbennig ar eu cyfer ac ar gyfer gwersi cerdd yr ysgol.<br><br>Os fydd y Cyngor yn penderfynu adeiladu Ysgol Corn Hir newydd, dylid sicrhau bod digon o le ynddi ar gyfer y dyfodol. Dylid ystyried hefyd yr angen a'r manteision o adeiladu uned Anghenion Arbennig (plant ol ddysgu) ar yr un safle.<br><br>Gan fod poblogaeth ardal Llangefni yn tyfu, credaf y byddai unrhyw gynllun i gau un a'i Ysgol Esceifiog neu Henblas yn gam yn rhy bell. Mae angen cadw capasiti i ddelio gyda phoblogaeth sy'n tyfu.<br><br>Hoffwn weld staff ysgol Corn Hir yn parhau fel aelodau o staff yn yr ysgol newydd. Mae angen ystyriad a fyddai y band gwyrdd sydd yn dangos gwaith caled staff ysgol Corn Hir dros gyfnod o amser yn parhau i'r ysgol newydd.<br><br>Hoffwn gadw yr enw Ysgol Corn Hir. Hoffwn i'r llywodraethwyr ystyried staff presennol yr ysgol i staffio'r ysgol newydd cyn hysbysebu y tu allan |

| Cwestiwn | Prif negeseuon: |
|---|---|
| 1 | • Mae pawb yn cytuno ni all y sefyllfa bresennol barhau |
| 2 | • Mae pawb yn gweld nad yw cynnal Ysgol Bodffordd yn bosib a dylai'r plant drosglwyddo i ysgol newydd Corn Hir i fanteisio ar adnoddau newydd, cyflusterau modern ayyb<br>• Nodir er fod hyn yn gallu bod yn ergyd i'r pentref - mae maneision amlwg i'r plant wrth drosglwyddo.<br>• Nodwyd gan un fod Ysgol Bodffordd yn Ysgol Gymuned ond bellach mae pob ysgol yn ysgol gymuned a mae posib y bydd yr ysgol yn gallu parhau yn safle cymunedol os mai hyn yw dyheyad y gymuned yno. |
| 3 | • Mae pawb yn gytun gyda'r gwir angen o ysgol newydd ar gyfer Corn Hir i gynnwys Bodffordd ond hefyd i ystyried Ysgol Henblas yn ogystal<br>• Nodir hefyd fod cyfle hefyd i ailedrych ar ffiniau dalgylchoedd ysgolion yr ardal gan fod dalgylch rhai ysgolion wedi tyfu'n enfawr wrth i ysgolion gau a cynnyddu'r broblem mewn rhai sefydliadau unigol. Byddai gwneud hyn, ynghyd ac adeiladu ysgol newydd, yn rhyddhau rhywfaint o'r pwysau ar Ysgol y Graig ac yn rhesymoli maint y dalgylch gan ystyried hefyd fod potensial i ddalgylch Talwrn gael ei gynnwys yn ei dalgylch hefyd.<br>• Mae angen ystyried beth fydd yn digwydd i'r adeiladau fydd yn cau - fyddent yn cael eu hystyried ar gyfer defnydd cymunedol. |
| 4 | • Nodwyd fod angen edrych tu hwnt i'r opsiynnau ac edrych ar uno Ysgol Parc y Bont gyda Esceifiog cyn buddsoddi mewn estyniad ym Mharc y Bont gan adeiladu ysgol newydd yn agos i'r parc gwyddoniaeth fyddai'n agor y drws i bartneriaethau arloesol rhwng y diwydiannau fydd yno, y brifysgol ac ysgol newydd. Y Cyngor sydd eisioes yn berchen y tir sydd yno a byddai posib gwenud elw o werthu safle'r ysgol bresennol i adeiladwyr tai.<br>• Nodwyd fod ffederaleiddio yn arbed costau ac yn caniatau i'r pennaeth fod yn ddigyswllt |
| 5 | • Consensws yw ychwanegu Ysgol Henblas i'r cynllun Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd gan greu un ysgol newydd rhwng y tair ysgol. |
| 6 | • Barn gytun y dylid cau Talwrn a symud y plant i'r Graig ond edrych ar ffiniau y dalgylch wedi'r ysgol gau gan edrych at ei rhannu rhwng Graig, Llanbedrgoch, Pentraeth ac Esceifiog |
| 7 | • Esyniad i'r ysgol i blant Talwrn ond edrych ar addasu ffiniau'r ysgol gan edrych i leihau'r dalgylch i rhyddhau pwysau tymor hir gan fanteisio ar ysgol newydd ym mhen uchaf y dref. |
| 8 | • Adeilad newydd yw'r ateb callaf mewn safle gwahanol fydd â chysylltiadau gwell parthed diogelwch plant, mannau parcio addas i staff / rhieni ayyb. |
| 9 | • Edrych ar greu un ysgol fawr |

## 10. Materion eraill o bwys:

- Mae angen ystyried sefyllfa ADY y dalgylch gan edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn cyflyrau arbennig fydd yn ganolfannau i blant âg ADY penodol ac yn ysgolion arweiniol yn ogystal.
- Mae angen adolygu ffiniau dalgylch ysgolion sy'n gallu rhyddhau pwysau mewn ysgolion eraill e.e. cynnwys Star yn ysgol Esceifiog i dynnu'r pwysau ar Llanfairpwll
- Gyda unrhyw newidiadau mewn strwythr dylid ailedrych ar delarau ac amodau gwaith y staff e.e. band cyflog y pennaeth i gynnwys ystyriaeth o redeg dwy / dair ysgol ar wahanol safleoedd nid cyfyngu i ddefnyddio cyfanswm niferoedd  plant yn unig. Dylid hefyd edrych ar amodau gwaith y dirprwyon / rheolwyr safle a chydnabod eu cyfrifoldebau ychwanegol ac hefyd y 'third in command' i fod yn barod i gymryd cyfrifoldebau mewn achosion o absenoldeb - trwy salwch neu gyfarfodydd ayyb.

## YMATEB I YMGYNGHORIAD DALGYLCH CEFNI - YSGOL ESCEIFIOG

Atodiad 5

| CWESTIWN | SYLWADAU |
|---|---|
| **Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?** | • Mae Ysgol Esceifiog erbyn hyn yn amlwg yn orlawn o ran maint yr ystafelloedd dosbarth, y neuadd a'r ardal barcio tu allan. Mae Cylch Meithrin gorlawn a chwb ar ôl ysgol lewyrchus iawn yn yr ysgol yn ogystal.<br>• Dylid nodi hefyd nad yw'r ffigyrau yn yr adroddiad bellach yn gywir nac yn cynnwys y plant meithrin sy'n annheg a credwn dylid diweddaru'r data yma i gael darlun cywir o sefyllfa'r ysgol.<br>• Does dim digon o le ar gyfer y disgyblion.<br>• Nid oes digon o le yn adeilad Esceifiog ar gyfer nifer y disgyblion sydd yma ar hyn o bryd a nid yw'r ystafelloedd bellach yn cyrraedd y gofynion parthed gofod i'r disgyblion.<br>• Nid yw adeilad Ysgol Esceifiog bellach yn addas oherwydd niferoedd plant.<br>• Mae'r rhagolygon ar gyfer niferoedd mynediad Ysgol Esceifiog yn golygu bod adeilad yr ysgol yn rhy fach i gwrdd a'r gofynion. Mae angen sefydlu cynllun i ddatblygu ag ehangu adeiladau'r ysgol.<br>• Diffyg gofod yn gyffredinol yn ddrwg iawn ym mhob dosbarth. Hefyd angen buddsoddi arian i greu ardaloedd addas thu allan ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen. |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Bodffordd?** | • Angen bod yn sensitif yn enwedig o ystyried yr ochr gymunedol o'r ysgol ar defnydd sy'n cael ei wneud gan y gymuned o'r safle - fydd yr ysgol newydd yn gallu cynnig yr un cyfleoedd i'r gymuned leol.<br>• Mae Bodffordd yn agos iawn i Corn Hir.<br>• Hyn yn galluogi I ddisgyblion Bodffordd a Corn Hir fanteisio ar adeilad ac adnoddau newydd. Arolwg Bodffordd wedi amlygu'r pwysau sydd ar benaethiaid sy'n dysgu.<br>• Newid yn rhan o weledigaeth yr AALl o gael penaethiaid di-gyswllt. |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Corn Hir?** | • Yn dilyn y cyfarfod gyda swyddogion yr Adran Addysg, roedd yn amlwg i mi nad oedd dim un opsiwn arall heblaw 6.2.9 yn bosib. Os yw fy nealltwriaeth yn gywir, er mwyn derbyn cyllid gan y Llywodraeth i gyd ariannu mae'n rhaid i unrhyw gynllun fod yn cwrdd ag amcanion y cynllun datblygu ysgolion. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i ysgol newydd gael ei sefydlu i uno Corn Hir a Bodffordd. Heb arian gan y Llywodraeth i gyd ariannu, fyddai dim digon o arian gan y Cyngor Sir i arainnu ysgol newydd/ datblygu Ysgol Corn Hir<br>• Cynnwys Ysgol Henblas yn yr ysgol newydd. Newid ffiniau'r dalgylchoedd fel bod yr ysgol newydd yn lleihau'r gwasgedd ar Ysgol Y Graig.<br>• Nid oes lle i dderbyn mwy o blant. Yn ychwanegol i hyn, nid yw'r dosbarthiadau presennol yn cyd- ymffurfio a'r mesuriadau sy'n cael eu cysidro'n dderbyniol. O ganlyniad, mae'r plant ar ben ei gilydd. Nid oes lle digonol ar gyfer staff i gyd-weithio, swyddfa ddigonol i'r Pennaeth, ystafelloedd gotiau addas i'r disgyblion, ystafell dargedu/ cynnal cyfarfodydd.<br>• Hyn yn gwneud synwyr yn ariannol - cyllid gan Llywodraeth Cymru yn bosibl gyda'r opsiwn yma |

| CWESTIWN | SYLWADAU |
| --- | --- |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Esceifiog?** | • Adeiladu ysgol newydd ar safle sydd eisioes yn berchen i'r cyngor e.e cae Peldroed neu ardal Parc gwyddoniaeth fydd yn gallu cynnig yr holl fuddiannau sydd wedi'i nodi osod ond heb unrhyw amhariaeth ar rediad yr ysgol nac ar ddiogelwch plant, staff a rhieni. Byddai adeilad wedi'i gynllunio o'r newydd yn caniatau i'r holl agweddau sydd angen sylw ei gwireddu yn ddi rwystr ac wedi'i gynllunio yn benodol i bwrpas. Byddai adeilad newydd ar safle arall yn caniatau'r cyngor werthu safle'r ysgol i ddatblygwyr neu ei ddefnyddio fel adnodd ychwanegol i'r aall e.e ysgol arbennig benodol sy'n rhan o'r ysgol. Nid oes ateb syml ar gyfer adeiladu estyniad a chynnal yr ysgol yr un amser ac o ganlyniad byddai adeilad newydd yn llai o drafferth yn y pendraw.<br><br>• Adeiladu estyniad sylweddol i gynnwys o leiaf 4 dosbarth newydd ac ystafelloedd targedu / cyfarfod / cerdd / adnoddau / cymunedol / storfeydd addas yn ogystal (tua 5-6)- byddai'n bosib creu 'podiau' ar gyfer gwahanol gyfnodau allweddol hy addasu / ailfodelu yr adeilad presennol (i greu 4 dosbarth addas ac addasiadau i fynedfa'r ysgol) gan sicrhau fod y gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i adnabod wedi'i wneud i gyd ac yna adeiladu adeilad newydd arall - ar gyfer adran CA2. Byddai hefyd angen ymateb i sefyllfa parcio ar gyfer staff yr ysgol - gyda'r angen i o leiaf 20 o lefydd parcio ar gyfer staff a rhai ychwanegol ar gyfer ymwelwyr ac ymateb i sicrhau ardal fwy diogel ar gyfer gollwng a chodi plant fodd bynnag rydym yn sylweddoli bydd heriau sylweddol. A fyddai estyniad sylweddol yn sicrhau fod gofod digonol ar ôl ar gyfer ardaloedd tu allan a cae / iard ayyb?<br><br>• Angen datblygu safle'r ysgol yn sylweddol os am greu estyniad gan roi sylw i'r trefniadau parcio ar gyfer y staff, rhieni ac ymwelwyr yn ogystal a chreu man addas ar gyfer danfon a nôl plant i'r rhieni.<br><br>• Opsiwn yma'n golygu arbediad ariannol a modd rhannu arbenigeddau staff rhwng ysgolion, a sicrhau bod y pennaeth yn ddigyswllt sy'n rhan o weledigaeth yr AALI.<br><br>• Dylid ystyried niferoedd disgyblion ADY ac ymateb i ofynion y strategaeth newydd ar gyfer ADY ar ddeddf newydd ADY gan edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn maesydd ADY / meddygol penodol. Byddai'r ysgolion yma yn arwain y sector yn y maesydd ac yn gallu helpu ysgolion eraill y sir / siroedd cyfagos. Byddant hefyd yn gallu cynnig darpariaeth i'r plant sydd ddim digon dwys i Ganolfan Addysg y Bont ond nad yw llawn amser yn y prif lif yn addas chwaith. Mae angen i'r agwedd yma gael sylw fel rhan o gynllun ehangach ar gyfer ADY fydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio hyn i oleuo'n cynlluniau a'n bwriadau nid ei ychwanegu fel "after thought" ar ddiwedd y broses. Byddai hyn ond yn sicrhau fod y sefyllfa bresennol o geisio cael pethau i weithio am fod rhaid ddim yn gorfod digwydd am fod hyn eisioes yn ran o'r cynllun. |

| CWESTIWN | SYLWADAU |
|---|---|
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Henblas?** | • Ymuno gyda Ysgol Corn Hir a Bodffordd mewn Ysgol newydd ar safle newydd.<br>• Cau yr ysgol a'i ymuno ag ysgol Corn Hir newydd<br>Cau yr ysgol a'i hymuno a Ysgol Corn Hir newydd.<br>• Ysgol Corn Hir a Bodffordd a Henblas i uno i greu un ysgol newydd gan sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion yr holl ysgolion. Mae data rhifau Ysgol Henblas hefyd yn ymddangos fel eu bod yn gostwng fyddai'n gallu creu sefyllfa negyddol parthed llefydd gweigion yno. |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Talwrn?** | • Mae llawer o blant dalgylch Y Graig yn gorfod mynd i Dalwrn yn barod<br>• Safon adeilad Talwrn ddim yn dda iawn - hyn yn golygu bod disgyblion Talwrn yn cael yr un tegwch a phlant Graig<br>• Gan fod cynifer yn dod i'r ysgol o thu allan i ddalgylch yr ysgol ac o ystyried cyflwyr yr adeilad ar hyn nad yw'n bosib ei gynnig ar y safle e.e. cae, neuadd ddigonol annoeth fyddai buddsoddi mor sylweddol i cyn lleied o blant. |
| **Pa opsiwn ydych yn ffafrio ar gyfer Ysgol Y Graig?** | • Sefyll i reswm i roi estyniad ar y Graig i dderbyn plant Talwrn ond yn ychwanegol dylid edrych yn fanwl ar ffiniau dalgylchol yr ysgol - yn draddodiadol mae'n debyg fod dalgylchoedd ysgolion sydd wedi cau wedi'i ychwanegu i un ysgol yn benodol sydd wedi ychwanegu at broblemau niferoedd e.e. dalgylch Capel Coch yn rhan o dalgylch Y Graig. |
| **Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer Ysgol Esceifiog? Beth yw'r manteision ar anfanteision?** | • Credaf mai adeilad newydd neu estyniad sylweddol yw'r unig modd i ateb yr holl ofynion a sicrhau bod safonau'n aros yn uchel.<br>• A oes angen edrych ar ddalgylch yr ysgol? A oes lle i dynnu ychydig o bwysau oddi ar Ysgol Llanfairpwll drwy ehangu dalgylch Ysgol Esceifiog? |
| **Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer ysgolion eraill yr ymgynghoriad? Beth yw'r manteision ac anfanteision?** | • Addasu ffiniau dalgylch yr ysgolion yn yr ymgynghoriad i ryddhau pwysedd mewn mannau eraill |

| CWESTIWN | SYLWADAU |
| --- | --- |
| **Oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw atynt neu unrhyw beth ychwanegol dylid ei ystyried?** | • Dylid ystyried bod angen adeilad gyda digon o le ynddi ar gyfer mwy o blant yn y dyfodol ac ar gyfer yr athrawon sydd angen lle i wneud eu gwaith cynllunio a paratoi. Rhaid cofio hefyd bod nifer o athrawon cerdd /ADY yn dod i'r ysgol a bod angen ystafell arbennig ar eu cyfer ac ar gyfer gwersi cerdd / Targedu yr ysgol ynghyd a chyflusterau ar gyfer cynnal cyfarfodydd ayyb.<br>• Os bydd y Cyngor yn dewis rhoi estyniad ar yr ysgol rhaid ystyried yn ddwys yr effaith ar allu cynnal y dosbarthiadau a chynnal yr ysgol tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo - bydd goblygiadau enfawr am y cyfnod parthed iechyd a diogelwch y plant staff ayyb, bydd problemau hefyd parthed mynediad i'r safle, problemau lleoli 'site office' a chyflusterau i'r gweithwyr a chofio fod rhaid sicrhau ardal chwarae addas i'r disgyblion ac ardal tu allan addas ar eu cyfer hefyd.<br>• Os fydd y Cyngor yn penderfynu adeiladu Ysgol Esceifiog newydd, dylid sicrhau bod digon o le ynddi ar gyfer y dyfodol a gofod digonnol i ymestyn ymhellach os cyfyd yr angen. Dylid ystyried hefyd yr angen a'r manteision o adeiladu uned Anghenion Arbennig (plant ôl ddysgu) ar yr un safle fydd nid yn unig yn adnodd i'r ysgol ond yn adnodd i'r Sir. Mae'n gyfle rhy dda i golli i greu trefniadaeth a darpariaeth newydd ar gyfer plant Môn sydd yn y system ar hyn o bryd ac am flynyddoedd i ddod.<br>• Edrych ar addasu dalgylchoedd ysgolion fyddai'n caniatau ysgolion mwy / newydd leihau'r pwysau ar ysgolion eraill cyfagos - hy os oes gwaith yn cael ei wneud ar ysgol fod ystyriaeth yn cael ei roi i edrych ar y dalgylch fel trefn arferol. |

| Cwestiwn | Prif negeseuon: |
|---|---|
| 1 | • Mae pawb yn cytuno ni all y sefyllfa bresennol barhau |
| 2 | • Mae pawb yn gweld nad yw cynnal Ysgol Bodffordd yn bosib a dylai'r plant drosglwyddo i ysgol newydd Corn Hir i fanteisio ar adnoddau newydd, cyflusterau modern ayyb |
| 3 | • Nodir nid oes digon o wybodaeth parthed ysgol arall i gynnig syniadau gwahanol ond yn ôl y wybodaeth sydd gennym mae pawb gweld angen ar gyfer addasiadau sylweddol yn ardal Corn Hir gan fanteisio ar y cyfle i ailedrych ar ffiniau dalgylchoedd ysgolion yr ardal gan fod dalgylch rhai ysgolion wedi tyfu'n enfawr wrth i ysgolion gau a cynnyddu'r broblem mewn rhai sefydliadau unigol. Byddai gwneud hyn, ynghyd ac adeiladu ysgol newydd, yn rhyddhau rhywfaint o'r pwysau ar Ysgol y Graig ac yn rhesymoli maint y dalgylch gan ystyried hefyd fod potensial i ddalgylch Talwrn gael ei gynnwys yn ei dalgylch hefyd. |
| 4 | • Nodwyd fod angen edrych tu hwnt i'r opsiynnau ac edrych nid yn unig ar estyniad ond ar adeiladu ysgol Esceifiog newydd yn ogystal gan adeiladu ysgol newydd ar dir sydd yn berchen i'r cyngor yn barod yn y pentref. Byddai posib gwenud elw o werthu safle'r ysgol bresennol i adeiladwyr tai i gyfrannu at y gost o adeiladu os mai dyma fyddai'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio.<br>• Nodwyd fod ffederaleiddio yn arbed costau ac yn caniatau i'r pennaeth fod yn ddigyswllt ond er yn ran o strategaeth yr AALl i gael penaethiaid digyswllt nid yw'n ddatrysiad gan nad yw'n ymateb i'r diffyg lle. |
| 5 | • Ystyried cynnwys Henblas gyda Corn Hir a Bodffordd |
| 6 | • Barn gytun y dylid cau Talwrn a symud y plant i'r Graig ond edrych ar ffiniau y dalgylch wedi'r ysgol gau gan edrych at ei rhannu rhwng Graig, Llanbedrgoch, Pentraeth ac Esceifiog |
| 7 | • Esyniad i'r ysgol i blant Talwrn ond edrych ar addasu ffiniau'r ysgol gan edrych i leihau'r dalgylch i rhyddhau pwysau tymor hir gan fanteisio ar ysgol newydd ym mhen uchaf y dref. |
| 8 | • Adeilad newydd neu estyniad sylweddol gyda addasiadau sylweddol i'r safle cyfan yw'r ateb callaf er mwyn sicrhau fydd â chysylltiadau gwell parthed diogelwch plant, mannau parcio addas i staff / rhieni ayyb |
| 9 | • Ysgol Henblas gyda Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd |

**10. Materion eraill o bwys:**

| Cwestiwn | Prif negeseuon: |
| --- | --- |

- Mae angen ystyried sefyllfa ADY y dalgylch / Sir gan edrych i greu canolfannau mewn ysgolion sy'n arbennigo mewn cyflyrau arbennig fydd yn ganolfannau i blant âg ADY penodol ac yn ysgolion arweiniol yn ogystal er mwyn ein galluogi i gyrraedd gofynion y strategaeth ADY newydd.
- Mae angen adolygu ffiniau dalgylch ysgolion sy'n gallu rhyddhau pwysau mewn ysgolion eraill e.e. cynnwys Star yn ysgol Esceifiog i dynnu'r pwysau ar Llanfairpwll
- Gyda unrhyw newidiadau mewn strwythr dylid ailedrych ar delarau ac amodau gwaith y staff e.e. band cyflog y pennaeth i gynnwys ystyriaeth o redeg dwy / dair ysgol ar wahanol safleoedd nid cyfyngu i ddefnyddio cyfanswm niferoedd  plant yn unig. Dylid hefyd edrych ar amodau gwaith y dirprwyon / rheolwyr safle a chydnabod eu cyfrifoldebau ychwanegol ac hefyd y 'third in command' i fod yn barod i gymryd cyfrifoldebau mewn achosion o absenoldeb - trwy salwch neu gyfarfodydd ayyb.
- Dylid manteisio ar y cyfle i greu ysgol fydd yn hwb byw i'r gymuned gyda digon o le i gynnig gwasanaethau o fudd i'r gymuned tu hwnt i'r ysgol e.e ystafelloedd cymunedol, lleoliad ar gyfer gwasanaethau cymunedol arall

Atodiad 6

# Ymateb Llywodraethwyr Ysgol Henblas

Diolch am y cyfle i roi barn ar yr ymgynghoriad anstatudol ar ddyfodol ysgolion ardal Cefni.

Fe wnaethom yrru holidaur i rieni Ysgol Henblas, (holiadur wedi ei selio ar y ddogfen ymgynghori), ac mae eu hymatebion wedi eu crynhoi yn Atodiad A.

Fel Llywodraethwyr fe wnaethom  ystyried sylwadau y rhieni yn ein cyfarfod ar 9/11/16, a dod i'r prif gasgliad (sy'n adlewyrchu barn unfrydol rhieni, staff a llywodraethwyr) y dylai addysg barhau i'w gael ei ddarparu yn Ysgol Henblas.

Ein casgliad felly ydi y dylai mwy gael ei wario ar gynnal a chadw yr ysgol, gan nodi (ag eithrio yr ysgol newydd yn yr ardal) mai Ysgol Henblas sydd a'r ffigwr isa o ran gwaith atgyweirio. Serch hynny, rhaid cwestiynnu rhai rhannau o'r adroddiad, e.e. mae'n crybwyll to fflat (toes na'm un), ac nid yw'n glir beth yw sail y £112,000 yr honnir sydd angen ei wario.

Rhaid hefyd cwestiynnu pan fod yr adroddiad yn honni na does lle i adeiladu estyniad - petai'r angen, mae lle i wneud hyn naill ochr neu'r llall i'r ysgol.

Er mwyn gwella ddarpariaeth addysg y plant, ein dymuniad felly fyddai ail fodelu rhan cyfnod sylfaen yr ysgol, ac hefyd gweithio yn agosach hefo'r cylch meithrin. Petai'r datblygiadau yma angen estynnu'r ysgol, yna gallai'r gwaith gychwyn yn nhymor yr haf, gyda'r gwaith "torri trwodd" i ddigwydd dros wyliau'r haf, h.y. dim / ychydig bach o effaith ar leoliad addysg y plant.

O ran yr opsiwn ffedereiddio, nid ydym yn teimlo fod gennym ddigon o wybodaeth ar hyn o bryd i roi barn - dydi'r goblygiadau ddim yn glir felly, gofynnwn i'r cyngor ystyried 6.4.3 - 6.4.5 yn gyntaf. (Dylid nodi hefyd mai lleiafrif bach o rieni sydd o blaid ffedereiddio.)

Hyderwn y gwnewch gymryd ein sylwadau i ystyriaeth pan yn symud i gam nesa'r broses.

Rhys Parry
Cadeirydd, Ysgol Henblas
13 Tachwedd 2016

**Atodiad A – ymateb rhieni Ysgol Henblas**

**Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid? *Do you agree with the reasons for change?***

36.5% yn cytuno, 27% yn anghytuno, 36.5% heb fynegi barn

Sylwadau:

Derbyn fod rhaid gwneud newidiadau ac addasiadau

Angen clwb ar ôl ysgol – angen mwy o le i hyn. Lot o rieni yn gweithio ond dim cyflusterau gwarchod ar ôl ysgol i gymharu/gysatadlu hefo'r ysgolion mwy.

Cytuno bod rhaid moderneiddio ysgolion.

Nid wy'n cytuno gyda cau Ysgol Henblas a plant y pentref i deithio i rhywle arall (Llangefni). Mae Henblas yn ysgol cartrefol. Os gwneud newidiadau felly adeiladau estyniad i'r ysgol

I don't agree. I feel it would be detrimental to the pupils to not have a consistent approach.

Mi fuasai'n drist iawn i'r plant ac i'r gymuned petai'r ysgol yn cau. Mae Ysgol Henblas yn ganolbwynt i'r gymdeithas leol ddod at eu gilydd

**Barn ar opsiynau, yn nhrefn poblogrwydd:**
(Rhai ymatebwyr wedi dewis mwy nag un opsiwn)

**Adeiladu estyniad / *Build an extension (Opsiwn 5) – 64% o blaid***

Sylwadau*:*

Symud y 'cylch' fewn i'r ysgol a defnyddio'r tir am estyniad. Prynu cae gyferbyn i'r ysgol er mwyn cael clwb ar ôl ysgol – fysa'n gwneud yr ysgol yn fwy poblogaidd

Estyniad i gael dosbarth meithrin yno

Angen modernieddio'r adeilad ac efallai cymryd y cyfle i wneud y cylch meithrin yn rhan o'r ysgol (cael gwared o'r caban)

**Gwneud cais am arian i wneud gwaith cynnal a chadw ar yr ysgol / *Apply for funding to do maintenance on the school* (Opsiwn 3) – 45% o blaid**

*Sylwadau:*

How can a school function as a respectable establishment with tiles missing off the roof.

**Gwneud cais am arian i adnewyddu'r ysgol / *Apply for funding to refurbish the school (Opsiwn 4) – 45% o blaid***

Sylwadau*:*

Dylid buddsoddi i adnewyddu'r ysgol a gwella'r cyfleusterau

**Gadael pethau fel y maent / *Leave things as they are (Opsiwn 1) – 36% o blaid***

Sylwadau:

Mae'r plant yn fwy debygol o gael mwy o sylw a chefnogaeth pan meant yn deulu bach. Mae'n haws i'r athrawon ddod i adnabod y plant a'u gallu. Mae'n hawdd iawn i'r plant sydd angen cymorth gael eu anghofio yng nghanol y rhai galluog a mwy chymdeithasol.

**Ffedereiddio gydag ysgol/ion eraill / *Federate with (an)other school (Opsiwn 2) – 18% o blaid***

Sylwadau:

Nid oes posib i Brifathro allu dysgu a rheoli'r ysgol â'r holl ofynion papur yn effeithiol

**Adeiladu llawr arall ar yr ysgol / *Build another floor on the school (Opsiwn 6) – 9% o blaid***

Sylwadau*:*

Swnio'n ddrud

**Gosod dosbarth dros dro / *Install another temporary classroom (Opsiwn 7) – 0% o blaid***

Dim sylwadau

***Cwestiynau pellach:***

**Beth ydy eich barn petai Ysgol Henblas yn cau ac y bydd plant Llangristiolus yn gorfod teithio i Langefni i dderbyn addysg?**
***What is your opinion if Henblas School was to close and the children of Llangristiolus would have to travel to Llangefni to receive their education?***

I feel that we would lose the sense of community and pupils of Llangristiolus lose their identity as there is nothing else here to bring pupils together

Byddai cau yr ysgol yn lladd y gymuned yma yn Llangristiolus. Fe ddaethom i fyw yma i Langristiolus yn benodol er mwyn rhoi addysg mewn ysgol wledig i'n plant ac roedd enw da iawn gan yr ysgol. Byddai cau yr ysgol yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg yn y gymuned

This would not be beneficial to children living in Llangristiolus whom have their own identity. This would remove a key part of the local community

Mi fysa hyn yn anffodus iawn gan fod gymuned dda yn y pentref, ac hwnnw ydy'r unig be thi gadw pawb hefo'i gilydd

Ddim yn cytuno o gwbl. Mae'n bwysig cael ysgolion i wasanaethu ardaloedd gwledig yn hytrach na dim ond mewn trefi

Ni fuaswn yn hapus o gwbl i yrru fy mhlant i ysgol yn Llangefni yn enwedig a ninnau ddim yn byw yn Llangefni. Dim bob rhiant sydd yn gallu dreifio i fynd a plant yno. Byth fuaswn yn gadael fy mhlant i sydd yn oedran ysgol cynradd i deithio ar fws eu hunain dim yn yr oes yr ydym ni heddiw

Mi fuaswn yn drist o weld hynny yn digwydd, ond yn gallu gweld fod angen moderneiddio ac ail strwythuro er mwyn sicrhau y cyfleoedd gorau i'r plant

Amalgamating with other school or closure would lead to the destruction of the community

**Oes gennych chi gynigion eraill ar gyfer ysgolion eraill yr ymgynghoriad? Beth yw'r manteision a'r anfanteision?**
***Do you have any other suggestions about the other schools in the consultation? What are the pros and cons?***

Gallaf weld fod cau Talwrn ac ymuno a'r Graig yn opsiwn rhesymol o ran costau. Gan fod Ysgol Corn Hir yn brin o le byddai ail leoli ac ymuno â Bodffordd yn sicrhau arbedion a gwell adnoddau

Byddai o fudd rhannu baich gweinyddol efo ysgolion eraill fel bod paratoi gwersi addysgu yn cael blaenoriaeth amser athrawon

The council has spent a lot on Ysgol y Bont + Graig. Henblas is not an old school + with the new school in Newborough . I think the council have enough to worry + plan. Henblas is not under or over capacity + should be left as it is

**Unrhyw sylwadau eraill**
***Any other comments***

Consistent standards of teaching is key, constant changes in teachers especially during term time is detrimental to the development and confidence of our children. This is the key responsibility of the governors and headmaster

Mae Ysgol Henblas yn gartrefol iawn. Fy mhlentyn wedi setlo yn dda iawn ag yn dod yn ei flaen yn dda iawn. Be fuaswn yn hoffi i weld ydy adeiladu estyniad i'r ysgol a chael plant meithrin yn ddarn o'r ysgol.

Mae pentref heb ysgol yn bentref heb galon. Ein plant yw ein dyfodol. Peidiwch dachi a chwalu'r teulu bach sydd gennym yn Henblas. Mae'r atgofion sydd gennym o'n plentyndod yn fyw am byth y nein calonnau. Peidiwch a dwyn hyn oddi wrthynt.

**Atodiad 7**

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Hoffem fel Corff Llywodraethol Ysgol Y Talwrn, wrthwynebu unrhyw argymhelliad i gau'r Ysgol yng nghyd-destun ymgynghoriad Dalgylch Llangefni. Mae'r Ysgol wedi bod yn gwasanaethu pentref Y Talwrn am 137 o flynyddoedd ac hoffem feddwl y bydd yn cael parhau i wneud hyn am amser maith eto.

Siom fawr i ni yw fod y bygythiad wedi dychwelyd gwta bedair blynedd ar ôl ymgynghoriad manwl iawn yn 2012. Yn 2012 roedd yr y ysgol o dan fygythiad am nad oedd digon o blant yn ei mynychu. Erbyn hyn ymddengys fod gormod o blant yn mynychu ysgolion y dalgylch a hyn ond 30 mlynedd ar ôl adeiladu ysgol newydd Corn Hir ac 8 mlynedd ar ôl adeiladu Ysgol Y Graig. Mae'r ddwy ysgol yma yn llawn yn barod ac angen ehangu. Mae ardal Llangefni yn parhau i dyfu a'r peryg ydi y bydd yr ysgolion, ar ôl ehangu, yn llawn unwaith yn rhagor mewn byr amser. Rydym ninnau yma yn Nhalwrn gyda 48 allan o'r 49 lle wedi eu llenwi a dim golwg fod y niferoedd am leihau.

Yr Ysgol yw calon ein cymuned yma yn Nhalwrn, a hebddi byddai'n peryglu dyfodol yr Eisteddfod leol, Ysgol Sul a Neuadd y Pentref. Rydym fel Corff yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad sydd yn bodoli yn y Gymuned gyda dros 150 o enwau yn barod ar ddeiseb heb gynnwys y llythyr ac ymatebion sydd wedi dod i law ffrindiau'r Ysgol. Credwn fod hyn yn dangos effaith yr Ysgol fel rhan hanfodol o fywyd y pentref. Yn ychwanegol, pleidleisiodd Cyngor Cymuned Llanddyfnan, mewn cyfarfod ar Hydref 25 yn unfrydol i wrthwynebu unrhyw fwriad i gau Ysgol Y Talwrn. Roedd y tri cynghorydd Sir dros ward canolbarth Môn yn bresennol i wrando ar y drafodaeth.

Hyderwn y byddwch yn parchu'r undod cryf sydd yn bodoli yma yn Nhalwrn rhwng y disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned a byddwch yn penderfynu cadw'r ysgol hapus hon yn agored i wasanaethu y Pentref a'r ardaloedd cyfagos.

Yr Eiddoch yn Gywir

[redacted]

Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Y Talwrn

Atodiad 8

**Ysgol Gynradd Y Talwrn**
Y Talwrn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TG
Ffôn: 01248 723363
Ebost: pennaeth.talwrn@ynysmon.gov.uk

Annwyl Reolwr Rhaglen,

Fel aelodau staff yma yn Ysgol Y Talwrn, hoffem fynegi ein pryder ynglyn a'r posibiliad y gall Ysgol Y Talwrn gau o dan eich system moderneiddio ysgolion. Er ein bod yn deall yr angen i edrych yn ofalus ar sefyllfa ysgolion Ynys Môn, credwn fod y pwyntiau isod yn atgyfnerthu ein barn y dylai Ysgol Y Talwrn gael yr hawl i barhau i ffynnu yn ei sefyllfa bresennol.

Mae Ysgol y Talwrn yn ysgol fechan deuluol a byddai'r ymdeimlad o agosatrwydd yn diflannu mewn sefyllfa fwy amhersonol, sy'n gysylltiedig ag ysgol fwy. Mae'r ysgol yn gweithredu yn effeithiol er mwyn tynnu'r gymuned ynghyd mewn ardal wasgaredig ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i atgyfnerthu profiadau dysgu cyfoethog yr ydym yn eu darparu i ddisgyblion Y Talwrn.

Mae'r ysgol hefyd yn ymwybodol o dreftadaeth ac hyrwyddiad yr iaith Gymraeg ac yn addysgu hynny i'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'n codi ymwybyddiaeth parthed hanes a diwylliant, ynghyd â diogelu traddodiadau ar gyfer y dyfodol. Yr ysgol yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn diogelu yr ymdeimlad o gymuned sydd yn bodoli yma yn Y Talwrn. Mae'r ysgol hefyd yn parhau i hyrwyddo a chefnogi diwylliant eisteddfodol. Byddai cau'r ysgol yn arwain at dranc yr eisteddfod, sydd bellach yn enghraifft amheuthun o eisteddfod leol ar yr ynys.

Fel yr ydym yn sicr y cewch wybod mewn amryw ddatganiad arall ynghylch moderneiddio ysgolion dalgylch Llangefni, mae'n cymuned yn llwyr gefnogol o barhad Ysgol Y Talwrn a gobeithiwn y gwnewch wrando arnynt a dewis cadw ein hysgol ar agor.

Yr Eiddoch yn Gywir,

Staff Ysgol Y Talwrn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Atodiad 9**

# eAdolygiad Ysgolion Cynradd Llangefni

# Primary Schools Review in Llangefni

# Ffurflen Sylwadau / Feedback Form

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i glywed eich barn chi. Rhowch eich sylwadau inni ar yr opsiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth i'r dyfodol i ddisgyblion cynradd sy'n byw yn ardal Llangefni os gwelwch yn dda.
*The County Council is keen to hear your opinion. Please send us your comments on the options for the future provision for primary pupils living in the Llangefni area.*

| | | |
|---|---|---|
| **1.Ydych chi'n cytuno gyda'r rhesymau dros newid?**<br>***1. Do you agree with the reasons for change?*** | Ydw – er bod gennym bryderon | Na |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.Pa opsiwn ydych chi yn ei gefnogi?**<br><br>***2. Which option do you favour?*** | | | | | | | | | |
| | 6.1.1 | 6.1.2 | 6.1.3 | 6.1.4 | 6.1.5 | 6.1.6 | 6.1.7 | | |
| | 6.2.1 | 6.2.2 | 6.2.3 | 6.2.4 | 6.2.5 | 6.2.6 | 6.2.7 | 6.2.8 | 6.2.9 |
| | 6.3.1 | 6.3.2 | 6.3.3 | 6.3.4 | 6.3.5 | 6.3.6 | 6.3.7 | | |
| | 6.4.1 | 6.4.2 | 6.4.3 | 6.4.4 | 6.4.5 | 6.4.6 | 6.4.7 | | |
| | 6.5.1 | 6.5.2 | 6.5.3 | 6.5.4 | 6.5.5 | 6.5.6 | | | |
| | 6.6.1 | 6.6.2 | 6.6.3 | 6.6.4 | 6.6.5 | | | | |

**3. A oes gennych gynigion eraill? / *Do you have any other proposals?***

1) Symud adran y CS i'r rhan CA2 ac addasu'r adeilad fel bod plant CS yn cael mynediad i ardal tu allan diogel i lawr ochr yr adeilad. Byddai hyn yn golygu bod plant CS yn defnyddio'r ardal hwn amser chwarae ac yn rhyddhau'r iard ar gyfer CA2. Nid oes gan dosbarthiadau'r CS (ag eithrio'r meithrin) fynediad i ardal tu allan diogel. Nid oes man penodedig ar eu cyfer.
2) Byddai adeiladu llawr arall yn cynyddu capasiti heb i ni golli tir ar gyfer y plant. Ni fyddai hyn yn amharu ar unrhyw un arall gan nad oes tai yn agos at yr adeilad.
3) Newid statws Ysgol Graig a Corn Hir i fod yn ysgolion CA2 ac adeiladu ysgol newydd ar gyfer y CS
4) Byddai angen maes parcio ychwanegol ar gyfer yr ysgol – posibilrwydd o ddefnyddio'r cae ar draws y ffordd i'r ysgol?
5) Adeiladu ar dir Ysgol Gyfun a datblygu honno i fod yn safle sy'n cynnig addysg 3 – 18oed ar gyfer Llangefni

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**4. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu eich sylw atynt?**
***4. Are there any other matters to which you wish to draw our attention?***

- Mae Ysgol y Graig yn rhy fychan ar gyfer y nifer o blant sy'n mynychu yn barod – 377 ar gofrestr eleni er mai 330 yw capasiti'r ysgol. Mae'r data yn y ddogfen ymgynghori yn gamarweiniol gan nad yw'n cymryd i ystyriaeth nifer y plant meithrin, er eu bod yn cael eu cyfrifo ar gyfer dod o hyd i gapasiti'r ysgol. Mae'r ysgol yn parhau i dyfu. Bydd angen 4 dosbarth ar gyfer Bl 5/6 yn 2017/18 ond nid oes lle ar gyfer hynny ar hyn o bryd.
- Maint y neuadd yn 196m². Mae hyn yn rhy fychan ar gyfer faint o blant sydd eisoes yn yr ysgol ac o ganlyniad mae 3 eisteddiad ar gyfer amser cinio. Dim ond un sesiwn ymarfer corff y gellir ei gynnig i bob dosbarth. Mae amserlen amser chwarae yn ei gwneud yn anodd iawn i ddefnyddio'r iard ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Byddai'n rhaid edrych ar bosibiliadau o ymestyn neuadd / adeiladu ail neuadd o fewn yr ysgol os fydd capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu.
- Byddai adeiladu dwy ystafell ychwanegol yn golygu bod llai o iard chwarae ar gael i'r plant. Mae diffyg lle ar yr iard eisoes a mae hyn yn peri pryder. Mae'n rhaid cael 3 amser chwarae gwahanol gan nad oes lle i bawb fod allan ar yr un amser. Er hynny oherwydd amgylchiadau mae'n holl blant allan ar yr iard am gyfnod byr yn ystod amser cinio a mae sawl damwain wedi digwydd oherwydd diffyg lle ar yr iard. Mae'r sefyllfa'n beryglus ond nid oes modd o osgoi'r sefyllfa oherwydd y diffyg lle. Mae sicrhau digon o oruchwyliaeth hefyd yn gallu bod yn anodd, yn enwedig pan fo staff yn absennol o'u gwaith.
- Mae gwersi offerynnau yn digwydd yn y cyntedd gan fod yr ystafell gerddoriaeth yn cael ei defnyddio fel ystafell ddosbarth. Byddai hyn yn parhau petai'r ysgol yn derbyn rhagor o blant gan ein bod mewn sefyllfa i lenwi'r 2 ddosbarth newydd yn barod, cyn cymryd i ystyriaeth unrhyw blant ychwanegol e.e. o Dalwrn / stadau tai newydd.
- Mae prinder llefydd cyfarfod o fewn yr ysgol fel y mae hi. Mae natur y gymuned sy'n cael ei wasanaethu gennym yn golygu fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn aml angen cynnal cyfarfodydd gyda'r plant / cyfarfodydd cynllunio gyda staff aml asiantaeth. Mae hefyd prinder lle er mwyn cynnal adolygiadau ADY. Golyga bod y cyfarfodydd hyn yn digwydd yn swyddfa'r Pennaeth gyda'r Pennaeth yn gorfod gadael ei swyddfa am gyfnodau o rhwng hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan. Petai'r ysgol yn cael ei hymestyn dylid cymryd hyn i ystyriaeth.
- Mae'r ysgol wedi ei chynllunio fel adeilad agored. Nid yw hyn yn ddelfrydol. Caiff nifer o'n plant anawsterau canolbwyntio oherwydd prysurdeb a lefel sŵn. Mae athrawon arbenigol ymddygiad a therapydd iaith wedi lleisio eu pryder nad yw'r amgylchedd yn caniatáu i blant ddatblygu sgiliau gwrando da.
- Petai'r ysgol yn derbyn estyniad mae angen hefyd meddwl am storfa ychwanegol. Nid oes lle digonol ar hyn o bryd i gadw adnoddau ac ati. Mae hefyd angen ystafelloedd newid i'r plant – yn enwedig yn CA2. Oherwydd natur yr adeilad mae'n anodd cynnig lle diogel i blant newid ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol.
- Mae gan bob dosbarth doiledau digonol ar gyfer bechgyn a merched ag eithrio 2 ddosbarth – un ym mlwyddyn 2 a'r llall ym mlwyddyn 3. Golyga hyn bod y plant yn y blynyddoedd hyn yn rhannu toiledau gyda dosbarthiadau eraill.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

| |
|---|
| - Byddai ffedereiddio gyda Thalwrn yn golygu bod cost cynnal a chadw'r adeilad yno yn parhau'n uchel yn flynyddol. |

5. Mae'n ddewisol os ydych chi eisiau rhoi eich manylion yn y blwch isod.
*5. It is optional if you want to enter your details in the box below.*

| | |
|---|---|
| Llofnod / *Signature* | Printiwch eich Enw / *Print your name* |
| Cyfeiriad / *Address*<br><br>Ysgol y Graig, Lôn Talwrn, Llangefni | Swydd / Categori'r Ymatebydd<br>(e.e. staff ysgol, rhiant, llywodraethwr, arall)<br>*Post / Respondent's category*<br>*(e.g. staff member, parent, governor, other)*<br><br>**ymateb ar ran staff ysgol y Graig** |
| Côd Post / *Postcode: LL77 7LP* | |
| Dyddiad / *Date 7/11/16* | |

**Oni bai eich bod yn nodi'n wahanol, bydd eich sylwadau yn agored i'r cyhoedd fel rhan o gofnodion ffurfiol yr ymgynghoriad.**
***Unless otherwise noted, your comments will be open to the public as part of the official records of this consultation.***

Dychwelwch unrhyw sylwadau at / *Return any comments to:*

| | |
|---|---|
| Rheolwr Rhaglen,<br>Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes,<br>Swyddfeydd y Cyngor,<br>Llangefni,<br>Ynys Môn LL77 7TW.<br><br>Neu anfonwch drwy e-bost at<br>ysgolionmon@ynysmon.gov.uk | Programme Manager,<br>The Lifelong Learning Directorate,<br>Council Offices,<br>Llangefni,<br>Anglesey LL77 7TW.<br><br>Or send them by e-mail to<br>angleseyschools@anglesey.gov.uk |

Mae croeso i chi ddanfon unrhyw sylwadau neu gwestiynau at y Rheolwr Rhaglen tan 13 Tachwedd, 2016
*You are welcome to send any comments or questions to the Programme Manager by 13 November, 2016.*